

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy

Ymchwil gymdeithasol  
Social research

Number: 04/2010



Llywodraeth Cynulliad Cymru  
Welsh Assembly Government

[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)

# Astudiaeth ymchwil ansoddol i archwilio ymddieithriad pobl ifanc o ddysgu

# **Astudiaeth ymchwil ansoddol i archwilio ymddieithriad pobl ifanc o ddysgu**

**Tîm Ymchwil:**

**Dr Sarah Lloyd-Jones**

**Rhodri Bowen**

**Dr Duncan Holtom**

**Tina Griffin**

**Jodie Sims**

Rhagor o wybodaeth:

Joanne Starkey

Adran y Prif Weinidog a'r Cabinet

Llywodraeth Cynulliad Cymru

Cathays Park

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 02920 82 6732

E-bost: [Research2@wales.gsi.gov.uk](mailto:Research2@wales.gsi.gov.uk)

Welsh Assembly Government Social Research, 2010

© Crown Copyright 2010

# Cynnwys

<b>Crynodeb o'r Adroddiad</b>	<b>4</b>
<b>Adran Un: Yr astudiaeth hon</b>	<b>11</b>
<b>Adran Dau: Methodoleg</b>	<b>13</b>
<b>Adran Tri: Ymchwil yn y maes hwn</b>	<b>28</b>
<b>Adran Pedwar: Canfyddiadau ymchwil yr astudiaeth hon gyda phobl ifanc</b>	<b>38</b>
<b>Adran Pump: Casgliadau a Goblygiadau Polisi</b>	<b>67</b>
<b>Llyfryddiaeth</b>	<b>74</b>

### **Diolchiadau**

Hoffai'r awduron ddiolch i aelodau grŵp llywio'r prosiect, Heather Davidson, Graham Davies, Duncan Mackenzie, Paul Morgan a Joanne Starkey am eu cymorth, eu cyngor a'u cefnogaeth. Hoffai'r awduron hefyd ddiolch i'r 16 lleoliad dysgu ac i'r 47 o bobl ifanc a'u cefnogodd ac a roddodd o'u hamser yn garedig – hebddynt, ni fyddai'r ymchwil hwn wedi bod yn bosibl.

## Crynodeb o'r Adroddiad

1. Comisiynwyd y gwaith ymchwil ansoddol hwn i ymddieithriad pobl ifanc o ddysgu ym mis Tachwedd 2009. Fe'i comisiynwyd mewn ymateb i ymrwymiad a nodir yng nghytundeb Cymru'n Un i "ymchwilio i broblem ymddieithrio o ddysgu ymhlith plant a phobl ifanc ac ...edrych ar dystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio". Dyma amcanion y prosiect ymchwil:
  - Ymgysylltu â phobl ifanc i'w hannog i gymryd rhan mewn astudiaeth ymchwil ansoddol ar raddfa fechan i archwilio beth yw eu barn hwy am eu hymddieithriad o ddysgu;
  - Archwilio boddhad pobl ifanc gyda'r addysgu a'r dysgu a brofwyd a nodi'r ffactorau sy'n ysgogi ymddieithriad pobl ifanc o ddysgu;
  - Archwilio'r ffactorau ysgol a chwricwlwm (gan gynnwys cyd-destun, y modd y darperir y cwricwlwm a chyd-destun yr ystafell ddosbarth) sy'n dylanwadu fwyaf ar y llwybr at ymddieithriad;
  - Nodi effaith agweddau ac ymddygiad unigolion sydd wedi ymddieithrio ar ddyheadau ôl-16;
  - Darparu tystiolaeth empeiraidd ar gyfer datblygu polisi a chynnig argymhellion i lywio ymchwil yn y dyfodol sy'n gysylltiedig ag ymchwiliad Cymru'n Un.
2. Aeth yr ymchwil ati i gofnodi barn y bobl ifanc eu hunain am ymddieithriad yn ogystal â nodi eu profiadau hwy. Cafodd ei strwythuro o amgylch arolwg llenyddiaeth ar ymddieithriad o'r ysgol a chyfweliadau ansoddol gyda 47 o bobl ifanc yng Nghymru rhwng 11-16 oed.

<b>Tabl A: Nodweddion y rheiny a gafodd eu holi</b>						
<b>Natur dalgylch lleoliad</b>	<b>y</b>	'Cymoedd'	'trefol a'r Cymoedd'	'gwledig'	'trefol a gwledig'	'trefol'
		10	3	9	11	14

<b>Oedran</b>	16 oed	15 oed	14 oed	13 oed	12 oed
	12	16	8	5	6

<b>Rhyw</b>	30 gwryw	17 benyw
-------------	----------	----------

<b>Lefel ymddieithriad</b>	<b>yr</b>	Ymddieithriad 'difrifol'	Ymddieithriad 'cymedrol'
		24	23

<b>Math ddarpariaeth ddysgu</b>	<b>y</b>	Darpariaeth prif ffrwd	Darpariaeth 'amgen'
		24	23

3. Dim ond arolwg cyfyngedig o lenyddiaeth a ganiatawyd gan gwmpas yr astudiaeth, felly, cytunwyd ar brotocol chwilio gyda'r cleient, Llywodraeth Cynulliad Cymru, a oedd yn gweddu i gwmpas yr astudiaeth a'r amser a oedd ar gael. Bu'r adolygiad yn cyfeirio at 69 o adroddiadau a dogfennau sy'n trafod ymddieithriad.
  
4. Bwriad y gwaith maes oedd ychwanegu at ymchwil sydd eisoes wedi ei gynnal ar ymddieithriad drwy gyfrwng adroddiadau pobl ifanc yng Nghymru. Y nod oedd cofnodi lleisiau pobl ifanc heb ymyrraeth. Ni wnaed unrhyw ymdrech i gydbwysu'r hyn a ddywedwyd gyda chyfraniadau ymarferwyr yn y lleoliadau dysgu yr oedd y bobl ifanc hyn yn eu mynychu. Y nod oedd cyflwyno'r profiad fel y'i disgrifiwyd gan y bobl ifanc, gyda'u dehongliad hwy o'r hyn a ddigwyddodd a chyda dadansoddiad o'r achos a'r effaith.

## Canfyddiadau Allweddol

5. Canfu'r arolwg llenyddiaeth mai cymharol gyfyngedig yw'r deunydd sy'n bodoli ar ymddieithriad sy'n seiliedig yn benodol ar dystiolaeth a gasglwyd gan bobl ifanc. Er enghraifft, o'r 69 o astudiaethau a adolygwyd, roedd y rhan fwyaf o'r deunydd yn seiliedig ar dystiolaeth a gasglwyd gan ffynonellau megis cyfweiliadau ag athrawon (a rhanddeiliaid allweddol eraill) yn hytrach nag ar gyfweiliadau gyda phobl ifanc.
6. Bu'r gwaith maes ar gyfer yr ymchwil hwn yn gwahodd pobl ifanc i drafod eu profiadau yn yr ysgol. Fel y dengys Tabl A uchod, nid oedd hanner y bobl ifanc bellach yn dilyn cwricwlwm y brif ffrwd ac roedd 21 ohonynt yn derbyn darpariaeth a oedd naill ai ar gael yn gyfan gwbl neu'n rhannol y tu allan i'r ysgol. Roedd cyfryngwyr (athrawon, gweithwyr ieuencid neu weithwyr cymunedol) wedi nodi bod pob un o'r bobl ifanc a gafodd eu cyfweld yn dangos ymddieithriad cymedrol neu ddifrifol. Mae'r data a gasglwyd drwy gyfweld â'r bobl ifanc yn cefnogi canfyddiadau'r arolwg llenyddiaeth i raddau helaeth. Mae'r ddau'n pwysleisio pwysigrwydd deall cymhlethdod anghenion pobl ifanc sydd wedi ymddieithrio o'r ysgol. Anaml y bydd achos ymddieithriad yn syml. Yn wir, yn aml, mae'r achosion yn ymwneud â chymysgedd cronus o ffactorau sy'n gysylltiedig â datblygiad personol, cymdeithasol ac emosiynol, digwyddiadau bywyd, strategaethau ymdopi plant a theuluoedd ac agweddau at ddysgu.
7. Mae canfyddiadau allweddol yr ymchwil wedi'u strwythuro o amgylch chwe thema y cytunwyd arnynt gyda grŵp llywio'r astudiaeth.

8. Cwricwlwm: nododd yr arolwg llenyddiaeth bum thema eang yn ymwneud â'r cwricwlwm wrth fynd i'r afael ag ymddieithriad. Roedd y rhain yn ymwneud ag ehangder a pherthnasedd (i'r grŵp targed o bobl ifanc) y cwricwlwm a gynigir; hyblygrwydd y cwricwlwm a dulliau o ganolbwyntio ar y dysgwr; a chyfranogiad ystod o ddarparwyr. Roedd y cyfweiliadau gyda'r bobl ifanc yn awgrymu y gall cwricwlwm sy'n cynnig mwy o ddewisiadau a hyblygrwydd helpu'r rheiny sydd wedi ymddieithrio'n gymedrol i ail-ymgysylltu ond bod dewisiadau a gynigir gan y cwricwlwm i'r rheiny sydd wedi ymddieithrio'n ddifrifol yn gyfyng iawn ac y caiff ei ddiffinio gan yr hyn sydd ar gael yn lleol.
  
9. Dysgu: Roedd y ddwy thema gyffredin a ddaeth i'r amlwg o'r arolwg llenyddiaeth yn ymwneud ag ymgysylltu arddulliau dysgu a defnyddio ymyriadau a chymorth wedi'u targedu. Roedd cyfweiliadau gyda phobl ifanc yn pwysleisio pwysigrwydd mwynhau a'r gwerth y mae pobl ifanc yn ei roi ar rai mathau o gymorth ychwanegol er enghraifft yr hyn a gynigir gan ddosbarthiadau llai o faint. Fodd bynnag, mae'r adolygiad hefyd yn awgrymu bod hunaneffeithiolrwydd yn rhywbeth sy'n gallu effeithio'n arw ar fwynhad a bod rhai mathau o ymyriadau, megis rhoi disgyblion mewn "setiau" arbennig, yn amhoblogaidd ac y gall gyfrannu'n uniongyrchol at ymdeimlad o ymddieithriad.
  
10. Addysgu: Roedd nifer o astudiaethau yn amlygu gwerth defnyddio gwahanol fathau o dechnegau addysgu yn ogystal â materion yn ymwneud ag ansawdd dulliau dysgu a chysondeb. Roedd y bobl ifanc a oedd yn rhan o'r ymchwil yn gwerthfawrogi amrywiaeth mewn gwersi a'r cyfle a ddarparwyd drwy weithio mewn grwpiau llai i ryngweithio gyda thiwtor neu athro.
  
11. Perthnasau: Dangosodd y deunyddiau pa mor bwysig yw hi i bobl ifanc a rhieni ddatblygu a chynnal perthynas effeithiol gydag athrawon a staff ysgol a'r strwythurau a'r prosesau a allai



hwyluso hyn. Bu trafod hefyd ar bwysigrwydd perthnasau â chyfoedion. Roedd rôl perthnasau hefyd yn thema gref yn yr ymchwil a gynhaliwyd gyda phobl ifanc, a oedd yn dangos sut y gall perthynas sy'n dirywio gydag athrawon ysgogi ymddieithriad. Roedd yr ymchwil hefyd yn nodi bod presenoldeb bwlio yn ffactor allweddol o ran ymddieithriad. Roedd y rhan fwyaf o'r disgyblion a oedd wedi cael eu bwlio am gyfnod hir yn teimlo nad oedd yr ysgol wedi ymyrryd yn effeithiol ac o ganlyniad, roedd y bwlio wedi cael effaith ddifrifol ar eu haddysg. Digwydd hyn gan ei fod yn golygu nad oedd y disgyblion yn mynychu'r ysgol er mwyn osgoi'r bwlio a'r ffaith fod bwlio yn eu hatal rhag chwarae rhan lawn yng ngweithgareddau'r ysgol pan oeddent yn yr ysgol.

12. Sgiliau: Y thema amlycaf o'r arolwg llenyddiaeth oedd yr angen i ddatblygu sgiliau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol pobl ifanc. Cafodd hyn ei adlewyrchu yn yr ymchwil gyda phobl ifanc. Cafwyd peth tystiolaeth bod ymddygiad aflonyddgar yn yr ysgol yn gysylltiedig â phroblemau teuluol, trafferthion gyda ffrindiau neu fwlio neu broblemau a achosir ar ôl cyfnodau o salwch. Fodd bynnag, mewn sawl ffordd, nid pa ddigwyddiadau a achosodd ymddieithriad neu a barodd iddo waethygu oedd y thema amlwg ond yn hytrach pam bod y digwyddiadau, profiadau neu broblemau hynny, sy'n effeithio ar nifer o blant a phobl ifanc, yn peri i rai ymddieithrio. Mae angen cysylltu grym y digwyddiadau hyn i amharu ar addysg plentyn neu berson ifanc gyda gallu'r plentyn neu berson ifanc unigol i ymdopi, neu ei sgiliau cymdeithasol ac emosiynol, a'r cymorth a gafodd ar y pryd.

13. Achosion ymddieithriad: Roedd nifer o astudiaethau yn nodi pwysigrwydd adnabod yn gynnar a'r angen am ddull holistaidd o weithio. Yn aml, ystyrir bod ymddieithriad yn ganlyniad i ddirywiad ym mherthynas y disgybl / ysgol. Ond mae'r arolwg

llynyddiaeth a'r gwaith maes yn nodi ystod o ffactorau a all beri straen ar berthynas ac yn y pen draw arwain at ddirywiad y berthynas. Cafodd yr ymchwiler drafferth wirioneddol wrth geisio adnabod un ffactor sy'n achosi ac yn effeithio ar ymddieithriad gan fod symptomau megis triwantiaeth yn gallu troi'n sydyn i fod yn un o'r achosion pan fydd colli gwersi yn golygu bod y gwaith dosbarth yn mynd yn rhy anodd. Dangosodd yr ymchwiler hefyd natur gronig rhai o nodweddion ymddieithriad ac yn wir, gwyddys bod rhai o'r bobl ifanc a gafodd eu cyfweld wedi bod â thrafferthion ymddygiadol neu ymdopi penodol wedi'u cydnabod ers eu blynyddoedd cynharaf yn yr ysgol.

## **Goblygiadau ac Argymhellion**

14. Nododd yr ymchwiler yr angen am ffyrdd o fynd i'r afael â phroblemau cronig hirdymor mewn teuluoedd a all ei gwneud yn anodd i blant ymgysylltu'n llwyr gyda'r ysgol er mwyn elwa ar yr addysg sydd ar gael. Mae hyn yn dangos pwysigrwydd ysgolion yn gweithio gyda Phartneriaethau Plant a Phobl Ifanc er mwyn nodi anghenion yn ogystal â mynd i'r afael â gwraidd y broblem. Mae hefyd yn amlygu pwysigrwydd ystyried anghenion cymorth plentyn mewn modd holistaidd dros y tymor hir yn ogystal â datblygu rhaglen a all ddilyn y plentyn mewn gwahanol ysgolion a monitro cynnydd.
15. Mae'r ymchwiler hefyd yn nodi pwysigrwydd atal ymyriadau i bresenoldeb yn y dosbarth rhag arwain at anfantais addysgol ddifrifol. Mae angen i hyn gynnwys gwaith i edrych ar pam y mae rhai pobl ifanc yn colli gwersi a mynd i'r afael â'r achosion hyn gan wneud yn siŵr bod strategaethau ar waith os bydd disgybl yn colli gwersi er mwyn iddo allu dal i fyny gyda'r gwaith.

16. Yn olaf, bu'r ymchwil yn ystyried y canfyddiadau sy'n ymwneud ag ail-ymgysylltu â dysgu a sut y gellir cynnal hyn wrth i bobl ifanc fynd o raglenni lle cynigir llawer o gefnogaeth i opsiynau cyflogaeth, hyfforddiant neu goleg y brif ffrwd.

# 1: Adran Un: Yr astudiaeth hon

## Cyflwyniad

1.1. Mae ymddieithrio o ddysgu yn achos pryder difrifol. Mae'n gysylltiedig ag ystod o ganlyniadau negyddol ar gyfer y bobl ifanc eu hunain yn ogystal ag i'r gymdeithas yn ei chyfanrwydd, gan gynnwys lefelau cyrhaeddiad is, risg gynyddol o beidio â bod mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth (NEET), risg gynyddol o ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddol, camddefnyddio sylweddau a beichiogrwydd ymysg yr ardegau.

1.2. O ystyried y pryderon hyn, mae Cytundeb Cymru'n Un yn cynnwys ymrwymiad i "ymchwilio i broblem ymddieithrio o ddysgu ymhlith plant a phobl ifanc ac ...edrych ar dystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio. Bydd y cylch gwaith yn cynnwys pontio rhwng yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd, y cwricwlwm, darpariaeth addysg ôl-16 a photensial cynlluniau dysgu personol." Mewn ymateb, comisiynwyd y prosiect ymchwil chwe mis hwn ym mis Tachwedd 2009 i ymchwilio i brofiad a phersbectif pobl ifanc mewn perthynas â'u hymddieithriad o ddysgu. Byddai'r ymchwil hwn yn llenwi bwlch tystiolaeth sy'n bodoli – bydd yn darparu tystiolaeth o lygad y ffynnon - pobl ifanc Cymru.

1.3. **Nod** y prosiect ymchwil oedd: "Cynnal astudiaeth ymchwil ansoddol i archwilio persbectif pobl ifanc (11 – 16 oed) o ymddieithrio o ddysgu."

1.4. **Amcanion** y prosiect ymchwil oedd:

- Ymgysylltu â phobl ifanc i'w hannog i gymryd rhan mewn astudiaeth ymchwil ansoddol ar raddfa fechan i archwilio beth yw eu barn hwy am eu hymddieithriad o ddysgu;
- Archwilio boddhad pobl ifanc gyda'r addysgu a'r dysgu a brofwyd a nodi'r ffactorau sy'n ysgogi ymddieithriad pobl ifanc o ddysgu;

- Archwilio'r ffactorau ysgol a chwricwlwm (gan gynnwys cyd-destun, y modd y darperir y cwricwlwm a chyd-destun yr ystafell ddosbarth) sy'n dylanwadu fwyaf ar y llwybr at ymddieithriad;
- Nodi effaith agweddau ac ymddygiad unigolion sydd wedi ymddieithrio ar ddyheadau ôl-16;
- Darparu tystiolaeth empeiraidd ar gyfer datblygu polisi a chynnig argymhellion i lywio ymchwil yn y dyfodol sy'n gysylltiedig ag ymchwiliad Cymru'n Un.

1.3 Cafodd yr ymchwil ei strwythuro o amgylch arolwg cryno o lenyddiaeth ar ymddieithrio o'r ysgol a gwaith maes. Roedd y gwaith maes yn canolbwyntio ar gyfweiliadau gyda 47 o bobl ifanc 11-16 oed ac ar nifer fechan o gyfweiliadau gyda rhanddeiliaid allweddol. Y bwriad oedd defnyddio'r cyfweiliadau hyn i ychwanegu at ymchwil sydd eisoes wedi ei gynnal ar ymddieithrio drwy gyfrwng adroddiadau pobl ifanc yng Nghymru.

1.4 Bwriad y gwaith maes gyda phobl ifanc oedd ychwanegu at ymchwil sydd eisoes wedi ei gynnal ar ymddieithriad drwy gyfrwng adroddiadau pobl ifanc yng Nghymru. Y nod oedd cofnodi lleisiau pobl ifanc heb ymyrraeth. Ni wnaed unrhyw ymdrech i gydbwysu'r hyn a ddywedwyd gyda chyfraniadau ymarferwyr yn y lleoliadau dysgu yr oedd y bobl ifanc hyn yn eu mynychu. Y nod oedd cyflwyno'r profiad fel y'i disgrifiwyd gan y bobl ifanc, gyda'u dehongliad hwy o'r hyn a ddigwyddodd a chyda dadansoddiad o'r achos a'r effaith. Yn amlwg, byddai ymarferwyr mewn lleoliadau dysgu yn gallu ychwanegu gwahanol bersbectif o ddigwyddiadau a gweithredoedd.

1.5 Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r fethodoleg a ddefnyddiwyd (adran dau), canlyniadau allweddol yr arolwg llenyddiaeth (adran tri) a chrynodeb o ganfyddiadau o'r 47 cyfweiliad a gynhaliwyd gyda phobl ifanc (adran pedwar). Yn olaf, mae'r adroddiad yn nodi set o gasgliadau o'r ymchwil (adran pump).

## 2: Adran Dau: Methodoleg

### Arolwg Ilenyddiaeth

2.1. **Cyflwyniad:** Er mwyn gosod cyd-destun ar gyfer yr ymchwil, cynhaliwyd arolwg o lenyddiaeth berthnasol. Adolygiad cwmpasu oedd hwn yn hytrach nag asesiad tystiolaeth cyflym llawn ac felly roedd y termau chwilio a'r ffynonellau yn gyfyngedig. Cytunwyd ar brotocol chwilio gyda'r cleient, Llywodraeth Cynulliad Cymru, a oedd yn gweddu i gwmpas yr astudiaeth a'r amser a oedd ar gael.

2.2. **Protocol chwilio:** Cytunwyd y byddai'r gwefannau canlynol yn cael eu chwilio:

- *Current Education Research in the UK* (CERUK);
- Cronfa ddata ymchwil addysg yr *Evidence for Policy and Practice Information and Co-ordinating Centre* (EPPI);
- Yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd (DCSF);
- Gweithrediaeth yr Alban;
- *British Education Index* (BEI).

2.3. Cytunwyd y byddai'r gwaith chwilio ar bob gwefan yn defnyddio termau yn seiliedig ar y themâu allweddol a nodir yn nodau'r ymchwil (gweler tabl 2.1)<sup>1</sup>. O ystyried cwmpas cyfyngedig y gwaith chwilio, ni ddefnyddiwyd termau penodol megis "cwrwclwm" i chwilio gan fod gwaith peilot cychwynnol wedi awgrymu y byddai materion sy'n gysylltiedig â'r cwrwclwm yn cael eu cynnwys o dan dermau chwilio eraill megis "dysgu", "addysgu" a "boddhad". Felly, fel sydd wedi'i nodi ym mharagraff 2.7, cawsant eu defnyddio fel termau chwilio wrth adolygu dogfennau.

---

<sup>1</sup> O ganlyniad i'r ffaith bod gwefan BEI yn gweithio'n wahanol i'r gweddill, roedd gofyn defnyddio termau gwahanol er enghraifft "cymhelliad disgybl" (*pupil motivation*) a "dan anfantais addysgol" (*educationally disadvantaged*).

<b>Tabl 2.1: Themâu allweddol a thermau chwilio</b>	
<b>Thema</b>	<b>Termau chwilio</b>
Ymchwil ansoddol	Ymddieithriad AC ansoddol
Bodddhad y dysgwr	Ymddieithriad A bodddhad
Addysgu a dysgu	Ymddieithriad AC addysgu
	Ymddieithriad A dysgu
Achosion ymddieithriad (sbardunau)	Ymddieithriad AC achosion
Pobl ifanc	Ymddieithriad A phobl ifanc
Effaith ymddieithriad ar ddyheadau'r dyfodol	Ymddieithriad A dyheadau

2.4. At hynny, cytunwyd y dylid cyfyngu ar ganlyniadau'r chwilio i ganolbwyntio ar astudiaethau:

- a gynhaliwyd yn y DU;
- sy'n canolbwyntio ar grŵp oedran 11-16 oed;
- a gynhaliwyd yn ystod y 10 mlynedd diwethaf (o 1999 ymlaen);
- sy'n ystyried ymddieithriad mewn perthynas â materion addysgol;
- sy'n canolbwyntio ar dystiolaeth pobl ifanc<sup>2</sup>.

2.5. O ystyried yr amserlen dynn (chwe mis), pe byddai gwefannau yn cynnig gormod o ganlyniadau na ellid eu rheoli (50 neu fwy), cytunwyd y byddai'r Uned Pobl a Gwaith yn cyfyngu ar:

- y canlyniadau i gynnwys cyhoeddiadau neu ddogfennau yn unig (gan ddibynnu ar yr opsiynau a gynnigir gan bob gwefan);
- nifer y dogfennau neu gyhoeddiadau fesul dyddiad (e.e. drwy arolygu llenyddiaeth o'r pum mlynedd diwethaf yn unig).

<sup>2</sup> Roedd nifer o adroddiadau yn seiliedig ar gyfuniad o ffynonellau tystiolaeth megis cyfweiliadau gyda phobl ifanc a staff proffesiynol. Fodd bynnag, nid oedd hi'n glir bob amser ar ba dystiolaeth yr oedd yr adroddiadau yn seilio eu canfyddiadau, er enghraifft, y staff proffesiynol sy'n oedolion, pobl ifanc ynteu'r ddau. Hefyd, roedd rhai adroddiadau yn cynnwys canfyddiadau a oedd yn berthnasol i'r ymchwil hwn nad oeddent yn cynnwys ymchwil ar bobl ifanc.

2.6. Ar ben y deunydd a ddefnyddiwyd drwy'r broses adolygu hon, cytunwyd y byddai'r astudiaeth hefyd yn ystyried cyhoeddiadau allweddol Estyn.

2.7. **Dadansoddiad:** Aethpwyd ati'n systematig i chwilio drwy bob dogfen a gasglwyd ar gyfer yr adolygiad gan ddefnyddio termau yn seiliedig ar nodau ac amcanion yr ymchwil. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cwricwlwm;
- Dysgu;
- Perthnasau;
- Sgiliau;
- Addysgu;
- Llwyth gwaith;
- Boddhad;
- Achosion.

2.8. Yna, aethpwyd ati i gasglu a chrynhoi yr wybodaeth a nodwyd o'r termau hyn (neu themâu) a oedd yn berthnasol. Hefyd, darllenwyd tudalennau cynnwys a chrynodebau gweithredol adroddiadau i nodi a chrynhoi unrhyw faterion eraill o ddiddordeb i'r astudiaeth nad oeddent wedi'u nodi.

### **Gwaith maes - cyfweiliadau gyda phobl ifanc**

2.9 **Cyflwyniad:** Fel y nodwyd yn y cyflwyniad, nod y gwaith maes oedd ychwanegu at yr ymchwil sydd eisoes wedi ei gynnal ar ymddieithriad drwy gyfrwng naratif pobl ifanc yng Nghymru. Er mwyn gwneud hyn, defnyddiwyd yr arolwg llenyddiaeth a chyfweiliadau gyda rhanddeiliaid allweddol i nodi cyfres o themâu neu faterion a allai fod o ddiddordeb i'r astudiaeth. Roedd y rhain yn darparu sylfaen ar gyfer datblygu canllawiau pwnc. Aeth y rheiny a oedd yn cyfweld ati'n fwriadol i'w defnyddio gyda hyblygrwydd a dychymyg. O ganlyniad, er bod rhai cwestiynau â strwythur wedi eu holi am e.e. oedran, ysgolion a fynychir a phynciau a astudir, roedd y cyfweiliadau gyda'r bobl ifanc fwy neu



lai'n gwbl agored gan ganolbwyntio ar ddisgrifiadau o brofiadau yn hytrach nag ateb set o gwestiynau a bennwyd ymlaen llaw (Bryman, 2001). Cafodd y fethodoleg hon ei llywio gan ddull Hammersley ac Atkinson (1995) o weithio, yn seiliedig ar broblemau a ragwelwyd, a gaiff eu trafod yn fanwl isod (paragraff 2.30-3.31).

2.10 Cafodd y gwaith maes ei hun ei strwythuro'n ddau gam gyda dau rownd o gyfweiliadau gyda phobl ifanc. Cafodd y rownd gyntaf o gyfweiliadau (n=18) ei ddefnyddio i lywio adroddiad interim a drafodwyd gyda grŵp llywio'r prosiect a'i ddefnyddio i lywio'r ail rownd o gyfweiliadau (n=29), er enghraifft, drwy nodi materion ychwanegol i'r ymchwil edrych arnynt. Roedd hyn hefyd yn gyfle i adolygu cynnydd a chytunwyd y byddai'r ail rownd o gyfweiliadau yn:

- cynnwys mwy o bobl ifanc sydd wedi ymddieithrio'n ddifrifol a mwy o fenywod, wedi'u dewis o ystod ehangach o leoliadau dysgu;
- ceisio gwybodaeth gan bobl ifanc am gyswllt gyda gwasanaethau gyrfaol ac adeg y flwyddyn y ganed y rheiny a gafodd eu cyfweild.

2.11 **Diffinio ymddieithriad:** Er mwyn nodi gwahanol lefelau o ymddieithriad ymysg pobl ifanc, ac er mwyn caniatáu i'r ymchwil gynnwys croestoriad o bobl ifanc gyda gwahanol lefelau o ymddieithriad, bu'r Uned Pobl a Gwaith yn edrych ar ymchwil a gomisiynwyd gan DCSF yn Lloegr, Callanan et al's (2009), a oedd yn diffinio tair lefel ymddieithriad (gweler y testun yn y blwch). Defnyddiwyd y model hwn gan ei fod yn deillio o astudiaeth arwyddocaol ddiweddar ac felly'n rhoi cyfle i'r ymchwil hwn roi prawf ar y model mewn cyd-destun Cymreig.

## **Lefelau ymddieithrio**

**Tangyflawni ond ddim wedi ymddieithrio:** I rai yn y grŵp hwn, roedd tangyflawni yn digwydd o ganlyniad i ddigwyddiad neu argyfwng, gan gynnwys problemau iechyd, beichiogrwydd neu brofedigaeth... [a] fel rheol, bydd yn cyd-fynd a chyfnodau hir o absenoldeb sydd yn eu tro yn ei gwneud yn anos iddynt wneud gwaith cwrs a dysgu'r cwricwlwm fel sy'n briodol yng Nghyfnod Allweddol 4 (CA4)... I eraill yn y grŵp, roedd tangyflawni yn broses fwy graddol... Roedd yr achosion hyn fel rheol yn gweld lefelau presenoldeb yn parhau'n dda, agwedd iach tuag at yr ysgol ond gyda lefelau cyrhaeddiad yn graddol ddisgyn.

**Ymddieithriad cymedrol:** Roedd pobl ifanc y grŵp hwn yn dangos arwyddion o ymddieithriad cymedrol... Yn wir, fe gwblhaodd pob un o'r bobl ifanc yn y grŵp hon o leiaf rai cyrsiau CA4, er bod eu cyrhaeddiad ar y lefel hwn yn amrywio. I bobl ifanc sy'n rhan o'r grŵp hwn, roeddent yn dal i fwynhau rhai agweddau ar fywyd ysgol. I rai, byddai hyn yn golygu cael cymdeithasu gyda ffrindiau, i eraill byddai'n athro neu'n bwnc penodol... I'r grŵp hwn, er y gallai'r ffactorau sy'n cyfrannu at ymddieithriad fod yn gymhleth, roeddent yn dueddol o fod yn llai difrifol na'r rheiny sydd ag ymddieithriad difrifol neu lwyr. Roedd presenoldeb rhai ffactorau amddiffynnol hefyd yn eu hatal rhag ymddieithrio'n ddifrifol neu'n llwyr.

**Ymddieithriad difrifol neu lwyr:** Roedd y rheiny a oedd wedi ymddieithrio'n ddifrifol neu'n llwyr o'r ysgol yn dioddef cwymp difrifol yn eu cyrhaeddiad ac roedd nifer o ffactorau cymhleth yn cyfrannu at yr ymddieithriad. Fe adawodd rai ohonynt y system addysg yn gyfan gwbl heb basio unrhyw gyrsiau CA4... yn aml, roedd ystod o ffactorau cymhleth amlweddol yn cyfrannu at yr ymddieithriad yn y grŵp hwn. Prin oedd y ffactorau cadarnhaol yr oedd gan y grŵp hwn i'w trafod am yr ysgol ac absenoldeb ffactorau amddiffynnol yn erbyn ymddiriedaeth sy'n eu gwahaniaethu oddi wrth y bobl ifanc hynny sydd wedi ymddieithrio i raddau llai.

2.12 Er y cytunwyd bod y diffiniadau'n ddefnyddiol, ar y cam cyntaf, nodwyd y gallai pobl ifanc fod â phersbectif gwahanol o'r hyn sy'n cyfrif fel ymddieithriad ac sy'n ei nodweddu. Felly, bu'r bobl a oedd yn cynnal y cyfweiliadau yn archwilio barn a dealltwriaeth pobl ifanc o ymddieithriad addysgol.

2.13 **Samplu pobl ifanc:** Roedd y ffaith mai nifer cymharol fach o bobl ifanc oedd yn rhan o'r astudiaeth (n=47) a'i natur ansoddol yn cyfyngu ar nifer y categorïau y gellid eu defnyddio i haenu'r sampl i adlewyrchu gwahanol nodweddion, megis lefel yr ymddieithriad. Felly, cytunwyd y byddai'r Uned Pobl a Gwaith yn canolbwyntio ar bobl ifanc wedi ymddieithrio i lefel gymedrol a difrifol. At hynny, roedd natur y bobl ifanc dan sylw - pobl ifanc wedi ymddieithrio - yn golygu y gallai fod yn anodd cael mynediad at union niferoedd mewn categori a nodwyd. Felly, yn hytrach na phennu cwtâu llym, gan ddiffinio'r niferoedd o bobl ifanc ym mhob categori, cytunwyd y byddai'r Uned Pobl a Gwaith yn ceisio cynnwys cymysgedd o bobl ifanc:

- o ardaloedd gwledig, trefol a'r Cymoedd;
- ar draws Cyfnodau Allweddol 3 a 4.

2.14 **Nodi a sgrinio pobl ifanc er mwyn eu cynnwys:** er mwyn cael mynediad at gyfweledigion posibl, nododd yr Uned Pobl a Gwaith ystod o leoliadau dysgu, gwaith ieuenctid a chymunedol (gweler tabl 2.2) a oedd yn gweithio gyda phobl ifanc wedi ymddieithrio ac a allai gyflwyno'r tîm ymchwil i'r bobl ifanc a oedd yn barod i gymryd rhan yn yr ymchwil.

<b>Tabl 2.2. Lleoliadau ar gyfer cynnal cyfweiliadau gyda phobl ifanc</b>				
<b>Enw a lleoliad</b>	<b>Disgrifiad</b>	<b>Ystod oedran y lleoliad</b>	<b>Lefel yr ymddieithriad</b>	<b>Natur dalgylch y lleoliad</b>
Canolfan Forsythia y Gurnos, Merthyr Tudful	Clwb ieuencid	11-16	Cymedrol a Difrifol	Cymoedd
Ysgol Gyfun Aberpennar, Rhondda Cynon Taf	Uned arbennig ar y safle	11-16	Cymedrol a Difrifol	Cymoedd
Ysgol Bryn Elian, Conwy	Uned arbennig ar y safle	11-16	Cymedrol a Difrifol	Cymysgedd gwledig a threfol
Changing tracks, Pen-y-bont ar Ogwr	Prosiect sy'n cefnogi pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant i wynebu'r hyn sy'n eu rhwystro rhag dysgu	13-16	Difrifol	Trefol a Chymoedd
School Focused Communities Glyncoch, Rhondda Cynon Taf	Prosiect sy'n cefnogi pobl ifanc drwy'r ysgol gyfun. Yn cynnwys cymorth dwys i bobl ifanc sydd wedi ymddieithrio o addysg	11-14	Cymedrol / Difrifol	Cymoedd
Sylfaen, Gwynedd	Sefydliad datblygu cymunedol gyda chysylltiadau â phrosiectau sy'n ceisio cefnogi pobl ifanc	14-16	Cymedrol	Gwledig a threfol
EOTAS ac ELIS Abertawe	Gweithio gyda phobl ifanc agored i niwed sydd angen cymorth i aros mewn addysg o ganlyniad i broblemau presenoldeb gan amlaf	14-16	Cymedrol a Difrifol	Trefol

Ysgol Bro Ddyfi, Machynlleth	Ysgol uwchradd	11-16	Cymedrol	Gwledig a threfol
Cymunedau yn Gyntaf Gogledd y Fenni	Prosiect ieuencid	11-16	Cymedrol a Difrifol	Gwledig a threfol
Pafiliwn Butetown	Clwb ieuencid	11-16	Cymedrol a Difrifol	Trefol

2.15 Er mwyn nodi pobl bosibl i'w cyfweld ym mhob un o'r lleoliadau hyn, gofynnwyd i staff ddewis pobl ifanc a oedd yn addas i'w cynnwys yn yr astudiaeth. Darparwyd meini prawf ar gyfer dewis unigolion (gweler tabl 2.3) a gofynnwyd iddynt benderfynu ar sail eu gwybodaeth broffesiynol ai ffactorau addysgol ynteu rhai personol a oedd yn bennaf gyfrifol am ymddieithriad yr unigolyn. Gwnaed hyn er mwyn gwneud yn siŵr mai dim ond y bobl ifanc hynny y barnwyd bod eu hymddieithriad wedi'i achosi'n bennaf neu'n sylweddol gan faterion addysgol a oedd yn cael eu cynnwys.

<b>Tabl 2.3. Meini prawf dewis</b>		
<b>Dangosyddion</b> Lefel ymddieithriad	<b>Ymddieithriad cymedrol</b>	<b>Ymddieithriad difrifol neu lwyr</b>
<b>Mwynhau ysgol</b>	Gan fwyaf	Na
<b>Tangyflawni</b>	Ie	Ie
<b>Cymhelliant</b>	Isel	Prin ddim
<b>Presenoldeb</b>	Anghyson	Gwael iawn
<b>Ymddygiad</b>	Weithiau'n wael	Gwael iawn

2.16 Cytunwyd y byddai ceisio annog pobl ifanc mewn ysgolion i gymryd rhan drwy gynnig arian iddynt yn amhriodol. Ond penderfynwyd ceisio annog pobl ifanc mewn lleoliad cymunedol i gymryd rhan drwy gynnig £10 iddynt.

2.17 **Cyfweliadau gyda phobl ifanc:** Roedd y rhain yn canolbwyntio ar 4 prif thema a oedd yn seiliedig ar amcanion yr astudiaeth:

- Boddhad gydag addysgu a dysgu;

- Y sbardunau sy'n achosi i bobl ifanc ymddieithrio;
- Ffactorau ysgol a chwricwlwm;
- Effaith agweddau ac ymddygiadau ymddieithrio ar ddyheadau ôl-16.

2.18 Defnyddiodd yr Uned Pobl a Gwaith ystod o dechnegau i ysgogi disgrifiadau a naratif gyda'r sawl a oedd yn cyfweld yn eu cofnodi. Y tri phrif ddull a ddefnyddiwyd oedd: amserlen, ymarfer graddio ar brofiadau ysgol ac ymarfer mapio ar amgylchedd yr ysgol.

2.19 **Amserlen:** Gofynnwyd i bobl ifanc sôn am 'amserlen' yn dyddio o'u hatgof cyntaf yn yr ysgol i'r presennol. Gosodwyd yr amserlen ar ddarn o bapur A2 ac wrth i'r person ifanc siarad, byddai'r sawl a oedd yn cyfweld yn gosod profiadau ac atgofion cadarnhaol uwchlaw llinell amser yn rhedeg ar draws y dudalen a rhai negyddol islaw gan wirio'n rheolaidd bod y ffeithiau'n gywir. Bydd y teclynnau ymchwil ar gael ar wefan Cynulliad Cymru.

2.20 Anogwyd pobl ifanc i nodi digwyddiadau cadarnhaol a negyddol ar yr amserlen er enghraifft atal dros dro o'r ysgol, profedigaethau, pen-blwyddi a chyraeddiadau yn yr ysgol a'r tu allan iddi. Roedd hyn yn rhoi syniad gwell, er enghraifft, a yw ffactorau ysgol sy'n effeithio ar ymddieithriad yn gwaethygu yn ystod cyfnodau pan fydd digwyddiadau allanol negyddol yn digwydd a pha un a yw'r ymddieithriad yn broses raddol ynteu'n cael ei hysgogi gan argyfwng.

2.21 Roedd amserlenni hefyd yn galluogi ymchwilwyr i archwilio lefelau ymddieithriad o amgylch digwyddiadau penodol wedi'u clystyru ar yr amserlenni. Er enghraifft, os bydd person ifanc wedi bod drwy brofedigaeth, trafferthion gyda chyfoedion a thrafferthion gyda'r ysgol yn ystod cyfnod gweddol fyr o amser, gallai'r ymchwilydd edrych ar faterion yn ymwneud ag ymddygiad, presenoldeb a mwynhad yn yr ysgol tua'r un amser. Yn ei dro, gallai hyn helpu i nodi a oedd lefel yr ymddieithriad addysgol yn fwy amlwg yn ystod y cyfnod hwn ac i ba raddau yr oedd y person ifanc yn teimlo bod cysylltiad rhwng y

materion a drafodwyd a'r ymddieithriad. Defnyddiwyd amserlenni hefyd i edrych ymlaen ar yr effaith ddisgwyliedig a gaiff ymddieithriad ar agweddau ac ymddygiad ôl-16.

2.22 **Graddio:** Ar ôl gorffen llenwi'r amserlen, dangoswyd darn o bapur A2 i'r bobl ifanc gyda phum colofn o dan y penawdau a ganlyn: cytuno'n gryf, cytuno, ddim yn cytuno nac yn anghytuno, anghytuno ac anghytuno'n gryf. Yna, cyflwynwyd taflen o sticeri i'r bobl ifanc gyda datganiadau arnynt wedi'u tynnu o'r sylwadau a wnaed gan bobl ifanc mewn astudiaethau blaenorol (e.e. Lloyd-Jones 2005) ac wedi eu grwpio o amgylch y pedair thema (gweler tabl 2.4 ac Atodiad 1 i weld y fersiwn lawn). Gofynnwyd i'r bobl ifanc ymhle yr oeddent am osod y sticeri wrth feddwl am eu hysgol gynradd ac yna eu hysgol uwchradd.

**Enghraifft o daflen raddio**

Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf
	Roedd fy ysgol yn teimlo'n gynnes	Roedd gen i ofn yn yr ysgol	Roeddwn i'n cael y gwaith yn anodd	Roedd gan yr athrawon ddiddordeb ynof fi
			Roedd yr ysgol yn barod i helpu a chefnogi	

2.23 Nid bwriad yr ymarfer graddio oedd gweithio fel arolwg ond yn hytrach gweithio fel teclyn i ysgogi naratif. Er enghraifft, roedd yn rhoi cyfle i'r sawl a oedd yn holi i ofyn pam fod sticer wedi ei osod mewn un golofn ar gyfer ysgol gynradd ac mewn colofn wahanol ar gyfer ysgol uwchradd.

2.24 Roedd pobl ifanc yn ymateb yn wahanol iawn i'r sticeri gyda rhai yn cymryd y daflen ac yn canolbwyntio ar osod y sticeri yn y colofnau eu hunain, gydag eraill yn eu darllen yn uchel cyn dweud wrth y sawl a oedd yn cyfweld ymhle i'w gosod (gwnaed hyn yn arbennig lle gallai

fod trafferthion gyda llythrennedd) ac eraill yn gwrthod cymryd rhan yn yr ymarfer o gwbl gan drafod un neu ddau o'r materion a godwyd yn unig.

<b>Tabl 2.4. Enghreifftiau o ffactorau ar gyfer ymarferion graddio</b>			
<b>Themâu allweddol</b> (Noder: Mae sylwadau wedi eu lliwio yn rhai cadarnhaol, a sylwadau heb eu lliwio yn rhai negyddol)			
<b>Addysgu a dysgu</b>	<b>Ffactorau ysgol a chwricwlwm</b>	<b>Ffactorau sy'n sbarduno ymddieithriad</b>	<b>Effaith ymddieithriad</b>
Roedd yr athrawon yn fy nghanmol pan oeddwn i'n gwneud yn dda	Cefais fy nysgu gan fy ysgol am fy hawliau	Roedd fy ysgol yn teimlo'n gynnes	Roedd yr ysgol yn ddiddorol
Roeddwn i'n cael y gwaith yn anodd	Roedd gen i ofn yn yr ysgol	Roeddwn i'n teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac wrth deithio yno ac adref	Roedd yr ysgol yn rhoi cyngor ac arweiniad i mi pan oedd ei angen arnaf
Roedd fy athrawon yn annheg	Roedd yr ysgol yn cynnig help ac yn gefnogol	Roeddwn i'n mwynhau mynd i'r ysgol	Dim ond pan fyddwn i mewn trafferth y byddai fy rhieni'n dod i'r ysgol
Roedd gan yr athrawon ddiddordeb ynof fi	Roeddwn i'n poeni am yr ysgol	Nid oedd yr athrawon yn fy ysgol yn fy mharchu i	Roeddwn i'n teimlo'n anghyfforddus yn yr ysgol
Roedd staff fy ysgol yn gyfeillgar	Roeddwn i'n bryderus ac yn anhapus yn yr ysgol	Nid oedd gen i neb yn yr ysgol i siarad â nhw am fy mhroblemau	Cefais fy mychanu yn yr ysgol
Roeddwn i'n cael help gyda fy ngwaith os oedd ei angen arnaf	Nid oedd yr ysgol yn poeni amdanaf i	Cefais fy mwlio yn yr ysgol	



- 2.25 **Mapio:** Defnyddiodd yr ymchwiler fap generig yn cynnwys yr ardaloedd a geir yn y rhan fwyaf o ysgolion, er enghraifft ystafelloedd dosbarth, ffreutur, toiledau, neuadd chwaraeon, iard a thir yr ysgol gan ofyn i bobl ifanc nodi pa mor gyfforddus oeddent ym mhob un o'r ardaloedd hyn. Eto, gwnaed hyn yn bennaf i ysgogi disgrifiad o brofiadau gan ei fod yn galluogi'r sawl a oedd yn cyfweld i archwilio pam fod pobl ifanc yn teimlo'n anghyfforddus mewn ardaloedd penodol a holi a oedd hyn yn gysylltiedig â'u hymddieithriad. Er enghraifft, os oedd person ifanc yn nodi ei fod yn teimlo'n anghyfforddus ar iard yr ysgol o ganlyniad i fwlio gan gyfoedion, gallai'r sawl a oedd yn cyfweld archwilio a oedd hyn wedi effeithio ar ymddieithriad yr unigolyn.
- 2.26 Roedd yr ymarfer mapio hefyd yn helpu i nodi sut yr oedd disgyblion a oedd wedi ymddieithrio yn teimlo am y profiad ysgol yn gyffredinol a pha un a oeddent yn trafod materion yn rheolaidd a oedd yn gysylltiedig ag agwedd benodol ar y profiad ysgol. Roedd cyfran uchel o bobl ifanc yn gymharol amharod i gymryd rhan lawn yn yr ymarfer gan nodi eu bod yn casáu pob agwedd ar yr ysgol neu nad oedd unrhyw ran o'r adeilad neu'r amgylchedd nad oeddent yn ei hoffi gan fod eu problemau yn ymwneud mwy er enghraifft â'r cwricwlwm neu athrawon. Fodd bynnag, roedd yr ymarfer hwn yn ddefnyddiol gyda nifer bach o bobl ifanc. Bu'r rheiny yn sôn am ardaloedd swllyd neu leoedd lle'r oeddent yn teimlo'n agored i niwed megis y bws ysgol fel y rhannau o'r ysgol yr oeddent yn hoffi llai arnynt - fe'u hanogwyd i esbonio pam.
- 2.27 **Cyfrinachedd a chaniatâd:** O ganlyniad i'r nifer bach o bobl ifanc yr oedd gan yr Uned Pobl a Gwaith fynediad atynt ym mhob lleoliad, er mwyn diogelu cyfrinachedd, cytunwyd na fyddai modd rhoi adborth unigol i leoliadau unigol yn dilyn y cyfweiliadau gyda'u pobl ifanc hwy. Serch hynny, cytunwyd y byddai'r adroddiad terfynol ar gael i bob lleoliad ac y byddai'n adlewyrchu canfyddiadau cyfweiliadau gyda phob un o'r 47 person ifanc.

- 2.28 Aethpwyd ati'n ofalus i esbonio nodau ac amcanion yr astudiaeth i'r bobl ifanc a gwiriodd yr ymchwilydd a oedd y bobl ifanc yn hapus i gymryd rhan. Esboniwyd eu bod yn cyfrannu at y gwaith o ddatblygu gwell dealltwriaeth o pam y mae rhai pobl ifanc yn ymddieithrio o'r ysgol. Cafodd 'ymddieithrio' ei esbonio fel ddim yn hoffi, methu â dod ymlaen â neu yn, a/neu beidio â bod eisiau bod yn rhywle - ac y byddai eu profiadau yn cael eu casglu gyda phrofiadau pobl eraill a'u rhoi mewn adroddiad ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru. Dywedwyd wrthynt na fyddai modd eu hadnabod yn ôl eu henw yn unrhyw un o'r deunyddiau sy'n deillio o'r astudiaeth. Mae pob enw a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn yn rhai ffuglennol.
- 2.29 **Dadansoddi a dehongli data:** Fel sydd wedi'i amlinellu yn y cyflwyniad, astudiaeth ansoddol oedd hon sy'n ceisio casglu naratif yn uniongyrchol gan bobl ifanc er mwyn dangos y profiad o ymddieithrio. Aeth y gwaith ymchwil ati i ddarparu llais i bobl ifanc heb ymyrraeth, heb unrhyw ymdrech i gydbwyso'r hyn a ddywedwyd gyda chyfraniadau ymarferwyr yn y lleoliadau dysgu yr oedd y bobl ifanc hyn yn eu mynychu neu ychwanegu cyd-destun ychwanegol wrth ddadansoddi data. Y nod oedd cyflwyno'r profiad fel y'i disgrifiwyd gan y bobl ifanc, gyda'u dehongliad hwy o'r hyn a ddigwyddodd a chyda dadansoddiad o'r achos a'r effaith.
- 2.30 Er mwyn dadansoddi a gwneud synnwyr o'r profiadau cyfoethog ac amrywiol a drafodwyd gan y bobl ifanc yn ystod y gwaith maes, mabwysiadodd yr Uned Pobl a Gwaith ddull Hammersley ac Atkinson (1995) o weithio, yn seiliedig ar broblemau a ragwelwyd, sef datblygiad o waith Glaser a Strauss' (1967) ar theori 'gosod sylfaen' (*grounded*<sup>3</sup>). Mae'r dull hwn o weithio yn cynnwys nodi materion a themâu yr ystyrir eu bod yn debygol o fod o ddiddordeb neu berthnasedd i'r astudiaeth,

---

<sup>3</sup> Caiff y dull ei lywio gan waith Glaser a Strauss' (1967) ar theori gosod sylfaen (*grounded theory*) ond mewn cyferbyniad â 'gwaith ymchwil gosod sylfaen' pur, mae dull Hammersley ac Atkinson yn cynnwys gwaith nodi. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod gan ymchwilwyr "feddyliau sy'n agored ond ddim yn wag" (Janesuck, 2000, t.384).

sy'n llywio'r gwaith o gasglu data er enghraifft drwy ganllawiau pwnc.

Yn yr achos hwn, dyma'r pedair prif thema:

- Boddhad gydag addysgu a dysgu;
- Y sbardunau sy'n achosi i bobl ifanc ymddieithrio;
- Ffactorau ysgol a chwricwlwm;
- Effaith agweddau ac ymddygiadau ymddieithrio ar ddyheadau ôl-16.

2.31 Yna, cafodd y cyfweiliadau eu trawsgrifio a sefydlwyd fframwaith dadansoddi (Coffey ac Atkinson 1996). Cafodd y data, a dynnwyd o naratif y bobl ifanc, ei grwpio a'i gategoreiddio i weld i ba raddau y mae'n cefnogi neu'n cyd-fynd â'r materion a'r themâu a nodwyd (h.y. y problemau a ragwelwyd). Yna, cafodd y materion a'r themâu eu mireinio, ychwanegwyd atynt, rhannwyd hwy, cyfunwyd hwy neu dilëwyd hwy er mwyn cyd-fynd â'r data (yn hytrach na cheisio gorfodi'r data i gyd-fynd â'r theori neu'r materion a'r themâu a nodwyd cyn i'r gwaith maes ddechrau). Mae Tabl 2.5 yn cynnig rhai enghreifftiau o'r meysydd a ddefnyddiwyd wrth ddadansoddi.

<b>Tabl 2.5 – Fframwaith dadansoddi</b>				
<b>Nodweddion</b>	<b>Thema 1</b>	<b>Thema 2</b>	<b>Thema 3</b>	<b>Thema 4</b>
Dull adnabod	Pynciau a astudir	Oedran pan ddechreuodd yr ymddieithrio	Enw'r ysgol gynradd	Ymateb i ddysgu
Rhyw	Dewis pynciau	Ffactorau straen a nodwyd	Enw'r ysgol uwchradd	Cynlluniau a sut y tynnwyd hwy ynghyd
Ardal	Profiadau dysgu da	Ffactorau sy'n cyfrannu e.e. iechyd	Rhaglenni / cymorth a brofwyd	Nod ôl-16
Oedran	Profiadau dysgu gwael			Llwyddiant wrth ddysgu hyd yma
LAC				Cyngor gyrfaoi
SEN				

2.32 Roedd strwythur y cyfweiliad yn dibynnu ar bobl ifanc yn nodi'r ymyriadau a'r digwyddiadau a oedd yn bwysig iddynt hwy ac felly ni allai'r data a gasglwyd weithio fel beirniadaeth o effaith unrhyw raglen neu wasanaeth penodol. Mae'n debygol na fu rhai pobl ifanc yn trafod yr holl wasanaethau cymorth a gynigiwyd iddynt gan na fu'r rhai a oedd yn cyfweld yn holi prin ddim cwestiynau uniongyrchol e.e. 'A welis di erioed anogwr dysgu?'. Felly, y tueddiad oedd cael ymatebion eithafol fel y rheiny'n trafod yr ymyriadau hynny yr oedd pobl ifanc yn ystyried eu bod wedi cael effaith dda iawn neu ddrwg iawn.

2.33 Mae'r cyfweiliadau wedi arwain at ystod o ymatebion i'r ysgol a dysgu sy'n rhoi darlun i ni ond nid oes modd ystyried eu bod yn gynrychioliadol o bobl ifanc yn gyffredinol neu hyd yn oed y rheiny sydd wedi ymddieithrio o ddysgu. Nid oes modd disgwyl i'r nifer bach o bobl ifanc a fu'n rhan o'r ymchwil i adlewyrchu ystod lawn o amrywion daearyddol, diwylliannol a socio-gymdeithasol yng Nghymru. Nid oes modd ychwaith cymryd yn ganiataol eu bod wedi profi'r holl amrywiadau yn y ddarpariaeth sydd ar gael i bobl ifanc. Felly, rhaid ystyried yr ymchwil yng nghyd-destun gwaith arall ar ymddieithriad o ddysgu, yr ydym yn ei adolygu yn yr adran ganlynol, gan ychwanegu cyfoeth a dyfnder i'r gwaith hwn gan awgrymu lle y gall fod bylchau mewn dealltwriaeth neu ddehongliad o achos ac effaith.

### **3: Adran Tri: Ymchwil yn y maes hwn**

#### **Cyflwyniad i'r arolwg llenyddiaeth**

- 3.1. Roedd cyfyngiadau adnodd y prosiect hwn yn golygu nad aethpwyd ati i gynnal arolwg llenyddiaeth gydag asesiad tystiolaeth cyflym (REA) cynhwysfawr o'r pwnc dan sylw. Wedi dweud hynny, fel y nodir yn Adran 2, roedd yn cymhwyso egwyddorion REA, gan chwilio am ddeunyddiau a chan fynd drwyddynt mewn modd systematig (GSRU, 2007).
- 3.2. Nododd y gwaith chwilio 90 o astudiaethau a allai fod o ddiddordeb. O'r rheiny, roedd 69 yn cynnwys gwybodaeth berthnasol. Caiff rhestr lawn o ddogfennau perthnasol eu rhestru yn y llyfryddiaeth. Fodd bynnag, pan aethpwyd ati i adolygu'r testunau llawn, canfuwyd mai cymharol gyfyngedig oedd y deunydd a oedd yn benodol seiliedig ar dystiolaeth a gasglwyd gan bobl ifanc. O fewn yr astudiaethau a adolygwyd, roedd y rhan fwyaf o ddeunyddiau yn seiliedig ar dystiolaeth a gasglwyd o gyfweiliadau gydag athrawon a rhanddeiliaid allweddol eraill yn hytrach nag ar gyfweiliadau gyda phobl ifanc. Pan oedd tystiolaeth yn cael ei ddarparu am bobl ifanc, nid oedd hi'n amlwg bob amser ar ba 'lais' yr oedd y canfyddiadau yn seiliedig. Roedd swmp mawr o'r deunyddiau yn adrodd ar werthusiadau neu ymchwil ar / am gynlluniau peilot penodol a olygai y gallai profiadau pobl ifanc fod yn annodweddiadol ac mewn nifer o achosion, roedd canllawiau neu ddogfennau strategaeth yn cyfeirio at yr un papurau ymchwil.
- 3.3. Mae'r adran hon yn crynhoi'r themâu perthnasol yn y deunyddiau ar ymddieithriad pobl ifanc. Caiff y 'themâu' hyn eu grwpio o dan bob un o'r termau chwilio perthnasol, megis "dysgu", neu "cwrwclwm". Fodd bynnag, yn aml, gwelwyd bod gorgyffwrdd pan oedd thema yn y deunyddiau yn cyfeirio at ddau neu fwy o'r termau chwilio. Er enghraifft, gallai ymgysylltiad pobl ifanc a "dysgu" seiliedig ar waith

ymwneud hefyd ag ehangu'r "cwrwclwm". Felly, mae'n bosibl bod y deunyddiau a amlygwyd o dan un thema yn berthnasol i themâu eraill.

### *Cwrwclwm*

3.4. Cwrwclwm oedd thema amlycaf yr adolygiad gyda'r nifer uchaf o ganlyniadau perthnasol. Roedd y rhan fwyaf o'r astudiaethau yn amlygu pum prif thema wrth fynd i'r afael ag ymddieithriad. Roedd y rhain yn cynnwys:

- darparu cwrwclwm ehangach, yn bennaf cyrsiau galwedigaethol (Callanan et al, 2009; DCSF, 2005; Estyn, 2009, 2008b, 2005b; GTCfE, 2005; Lowden et al, 2009; Menter, 2007; OFSTED, 2007; Reed, 2005; Gweithrediaeth yr Alban, 2002; SRP, 2004; Llywodraeth yr Alban, 2007a);
- gwneud y cwrwclwm mor berthnasol ag sy'n bosibl, er enghraifft, o ran cynnwys sgiliau sy'n gysylltiedig â chyflogadwyedd (Adams et al, 2009; Callanan et al, 2009; DCSF, 2009, 2008b, 2006; DfES, 2004; Estyn, 2009, 2008b, 2005a; OFSTED, 2005; Visser et al, 2005; Reed, 2005; Llywodraeth yr Alban, 2007a)
- darparu cwrwclwm hyblyg a allai addasu i ddiwallu anghenion pobl ifanc, er enghraifft o ran cynnwys yr hyn a gaiff ei ddysgu neu'r amser lle gall pobl ifanc gael mynediad at y cwrwclwm (DCSF, 2008c, 2008d; DfES, 2002; Estyn, 2005a, 2005b; GTCfE, 2005; OFSTED, 2008; Riley et al, 2006; Gweithrediaeth yr Alban, 2006, 2002);
- darparu cwrwclwm sy'n canolbwyntio ar y disgybl drwy ymgynghori â phobl ifanc a darparu ar gyfer eu hanghenion penodol er enghraifft i gyd-fynd â'u hanghenion neu arddulliau dysgu (OFSTED, 2008; Frankham et al, 2007; Hallam et al, 2004; Riddell, 2008; Riley et al, 2006; Teaching and Learning Research Brief, 2003)
- defnyddio darparwyr hyfforddiant y tu allan i'r ysgol megis colegau addysg bellach a darparwyr dysgu seiliedig ar waith (Estyn, 2009,

2008d, 2005b; Griggs et al, 2008; Lowden et al, 2009; McCrane et al, 2009; OFSTED, 2008; Gweithrediaeth yr Alban, 2006).

3.5. Roedd nifer bach iawn o astudiaethau yn dangos casgliadau gwahanol a oedd yn gwrth-ddweud ei gilydd weithiau, er enghraifft, roedd un astudiaeth (Hall & Raffo, 2001) yn nodi y gallai defnyddio darparwyr hyfforddiant y tu allan i'r ysgol weithiau gael effaith niweidiol ar bobl ifanc pan fyddant yn dychwelyd i'r ysgol gan eu bod wedi arfer â chael eu trin yn wahanol mewn lleoliad dysgu arall. Hefyd, roedd rhai astudiaethau (DfES, 2002; Reed, 2005) yn nodi'r ffactorau sy'n rhwystro'r broses o ddarparu cwricwlwm ehangach, er enghraifft mewn ardaloedd gwledig.

3.6. Cafodd themâu eraill eu hamlygu i raddau llai hefyd. Roedd y rhain yn cynnwys:

- y cwricwlwm ddim yn ddigon heriol i bobl ifanc (Estyn, 2008c; Pirrie et al, 2009; Visser et al, 2005);
- os bydd pobl ifanc yn ennill cymwysterau'n gynnar (e.e. 14 oed), gallai hyn ennyn diddordeb y rheiny sydd mewn perygl o ymddieithrio yn eu haddysg (Callanan et al, 2009; GTCfE, 2005) ;
- pwysigrwydd gwneud yn siŵr bod cydraddoldeb wrth gael mynediad at y cwricwlwm a'r cwricwlwm ehangach i bob person ifanc waeth beth yw eu hamgylchiadau (GTCfE, 2005; Llywodraeth yr Alban, 2003);
- pwysigrwydd cwricwlwm y gall pobl ifanc ei fwynhau (DfES, 2004; OFSTED, 2008);
- ar hyn o bryd, mae'r cwricwlwm yn fwy addas ar gyfer merched na bechgyn (Biggart et al, 2003; Ross, 2009);
- mae dewis cwricwlwm ym mlwyddyn 9 yn bwysig gan fod hyn yn cynrychioli conglaen allweddol i bobl ifanc (Callanan et al, 2009; Cooke & Barnes, 2010);
- dim ond un ffactor bosibl ar gyfer mynd i'r afael ag ymddieithriad yw'r cwricwlwm, felly cyfyngedig yw ei effaith wrth fynd i'r afael ag ymddieithriad (Pirrie, 2009; Gweithrediaeth yr Alban, 2006).

3.7. **“Dysgu”**: Dyma ddwy thema gymharol gyffredin a nodwyd er mwyn mynd i'r afael ag ymddieithriad:

- darparu arddulliau dysgu sy'n cynnal diddordeb pobl ifanc – yn bennaf, defnyddio dulliau ymarferol neu ryngweithiol i wella'r profiad dysgu i bobl ifanc (Callanan et al, 2009; GTCfE, 2005; Nardi & Steward, 2003; Riley et al, 2006; Gweithrediaeth yr Alban, 2004; Llywodraeth yr Alban, 2007a);
- targedu cymorth neu ymyriadau dysgu, er enghraifft, tiwtora “un i un” (Callanan et al, 2009; Estyn, 2005a; Goodman & Gregg, 2010; Gweithrediaeth yr Alban, 2009, 2006).

3.8. Roedd nifer o themâu eraill yn dod i'r amlwg i raddau llai ac roeddent yn wahanol iawn eu natur. Roedd y rhain yn cynnwys;

- pobl ifanc yn mynegi eu diflastod gyda'r profiad dysgu (Estyn, 2008b; Bigger, 2006; SRP, 2004);
- pwysigrwydd gwella'r amgylchedd dysgu yng nghartrefi pobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio (Goodman & Gregg, 2010; Hallam et al, 2004; Vulliamy & Webb, 2003)
- pobl ifanc sydd ag anawsterau dysgu heb eu hadnabod, sy'n cynyddu'r perygl y byddant yn ymddieithrio (Gillies & Robinson, 2010; Pirrie et al, 2009);
- y pwyslais cynyddol ar ddysgu annibynnol o Gyfnod Allweddol 3 – 4 sy'n golygu y gall rhai pobl ifanc ei chael yn anodd addasu, gan gynyddu'r perygl y byddant yn ymddieithrio (Callanan et al, 2009; Hallam et al, 2004);
- creu amgylchedd dysgu cadarnhaol lle nad yw pobl ifanc yn ofni rhoi cynnig arni a methu (NTRPC, 2006; Bigger, 2006);
- diffyg sgiliau sylfaenol megis llythrennedd sy'n golygu nad oes gan bobl ifanc sydd wedi ymddieithrio'r sgiliau sydd eu hangen i ddysgu (NTRPC, 2006; SRP, 2004);
- gellir defnyddio dysgu ar-lein fel teclyn defnyddiol i ail-ymgysylltu pobl ifanc (Becta ICT Research, 2003; Ross, 2009);



- mae'n anos adnabod merched sy'n ymddieithrio o ddysgu na bechgyn (JRF, 2002);
- mae pobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio neu sydd wedi ymddieithrio yn gwerthfawrogi dysgu anffurfiol (Adams et al, 2009; Frankham et al, 2007);
- mae mentrau pontio yn helpu i wella profiad dysgu pobl ifanc (Estyn, 2008c; Estyn, 2005a; Estyn, 2005b);
- mae ffocws ar sgiliau cymdeithasol a phersonol yn gwella agweddau tuag at ddysgu (DCSF, 2006; Estyn, 2009; Estyn, 2008d).

3.9. **“Perthnasau”**: Mae nifer o astudiaethau (Callanan et al, 2009; Frankham et al, 2007; Hallam et al, 2004; Maguire, 2009; OFSTED, 2008; OFSTED, 2005; Reed, 2005; Riley et al, 2006; Ross, 2009; SRP, 2004; Llywodraeth yr Alban, 2003) yn dangos tystiolaeth sy'n awgrymu bod cymorth athrawon yn bwysig i bobl ifanc. Mae astudiaethau hefyd yn dangos bod perthnasau sy'n dirywio rhwng athrawon a phobl ifanc yn gyffredin ymysg pobl ifanc sydd wedi ymddieithrio. Felly, mae astudiaethau yn eirioli ffyrdd y gellid gwella'r berthynas hon (Bigger, 2006; OFSTED, 2008; Reed, 2005; Riley et al, 2006; SRP, 2004), er enghraifft seilio perthynas ar gyd-ddealltwriaeth a pharch. Roedd materion yn ymwneud â pherthynas y rhieni a'r ysgol a rhwng y bobl ifanc a'u cyfoedion hefyd yn gyffredin. Mae astudiaethau yn nodi pam ei bod hi'n bwysig i ysgolion ymgysylltu â rhieni, er enghraifft drwy gynnig cymorth i deuluoedd (Callanan et al, 2009; Goodman & Gregg, 2010; GTCfE, 2005; Hallam et al, 2004; Gweithrediaeth yr Alban, 2006; Llywodraeth yr Alban, 2007a; Vulliamy & Webb, 2003). Mae astudiaethau hefyd yn nodi gwahanol agweddau ar ansawdd y berthynas rhwng pobl ifanc, a oedd yn dylanwadu ar eu hymddygiad (Callanan et al, 2009; DfES, 2002; Estyn, 2008b; Hall & Raffo, 2001; Hallam et al, 2004; Mooij, 1999; Pirrie et al, 2009; Gweithrediaeth yr Alban, 2003). Er enghraifft, gallai pwysau negyddol gan gyfoedion

annog pobl ifanc i fynychu'r ysgol yn llai aml gan gynyddu'r perygl eu bod yn ymddieithrio.

3.10. Mae themâu llai cyffredin a nodwyd gan y deunyddiau yn cynnwys:

- roedd dosbarthiadau llai o faint yn gwella perthnasau gydag athrawon er enghraifft drwy roi i athrawon fwy o amser i esbonio pethau ac felly'r profiad dysgu (GTCfE, 2005; Pirrie et al, 2009; Gweithrediaeth yr Alban, 2003);
- effaith gadarnhaol pobl ifanc yn meithrin perthnasau cadarnhaol gydag oedolion, megis cyflogwyr, y tu allan i'r ysgol (Hall & Raffo, 2001; Gweithrediaeth yr Alban, 2002; SRP, 2004);
- effaith gadarnhaol pobl ifanc yn datblygu cysylltiadau gyda'r sector cyhoeddus allanol a chyda sefydliadau'r sector gwirfoddol megis yr heddlu ac elusennau sy'n gweithio gyda phobl ifanc (Adams et al, 2009; Griggs et al, 2008; Hallam et al, 2004; OFSTED, 2005);
- pontio o Gyfnod Allweddol 3 i Gyfnod Allweddol 4, sef cyfnod lle bydd nifer o bobl ifanc yn datblygu eu diddordebau eu hunain a gallai newid arwain at ymddieithriad o'r ysgol (Callanan et al, 2009; Gaynor, 2007);
- byddai symud rhwng ysgolion yn cael effaith niweidiol ar allu disgyblion i feithrin perthnasau newydd ac yn cynyddu'r perygl o ymddieithriad (Reed, 2005; Ross, 2009);
- roedd mentrau i wella ymgysylltiad pobl ifanc yn yr ysgol, er enghraifft cynghorau ysgol, cynlluniau mentora a chyfeillio yn fuddiol (Bigger, 2006; NTRP, 2006; OFSTED, 200);
- mae perthnasau negyddol rhwng pobl ifanc a'u teuluoedd yn cael effaith niweidiol ar sut y mae pobl yn ymgysylltu â dysgu (Goodman & Gregg, 2010; GTCfE, 2005; Hallam et al, 2004).

## **Sgiliau**

3.11. Roedd datblygu sgiliau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol pobl ifanc yn thema gyffredin yn y deunyddiau (DCSF, 2009; DfES, 2002; Estyn, 2009, 2008d; Goodman & Gregg, 2010; GTCfE, 2005; Gweithrediaeth yr Alban, 2009; SRP, 2004). Mae sôn bod datblygu

sgiliau o'r fath yn cael effaith gadarnhaol, er enghraifft lleihau triwantiaeth ymysg pobl ifanc ac mae caffael y sgiliau hyn yn bwysig er mwyn gallu cael mynediad at ddysgu ffurfiol a datblygu hyder a chymhelliant pobl ifanc i ddysgu. Mae un astudiaeth (Gweithrediaeth yr Alban, 2004), yn nodi pwysigrwydd darparu'r sgiliau hyn yn barhaus drwy gydol profiad dysgu'r person ifanc.

3.12. Roedd themâu llai cyffredin a nodwyd yn yr arolwg llenyddiaeth yn cynnwys:

- sgiliau rheoli ymddygiad rhai athrawon, a oedd yn gymysg iawn rhwng ysgolion ac a oedd yn dylanwadu ar lefelau ymddieithriad ymysg pobl ifanc yn yr ysgolion hyn (Callanan et al, 2009; Reed, 2005);
- cydnabod sgiliau ehangach pobl ifanc, er enghraifft drwy achredu sgiliau allweddol (GTCfE, 2005; Gweithrediaeth yr Alban, 2006);
- datblygu sgiliau sylfaenol pobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio neu sydd eisoes wedi gwneud hynny (Estyn, 2005a; SRP, 2004; Llywodraeth yr Alban, 2007a);
- mae cwricwlwm amgen yn rhoi i bobl ifanc y sgiliau sydd eu hangen arnynt i ddod yn rhan o'r brif ffrwd unwaith eto (DCSF, 2008a; Pirrie et al, 2010);
- pwysigrwydd datblygu sgiliau rhianta rhieni pobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio neu sydd eisoes wedi gwneud hynny (Goodman & Gregg, 2010; Hallam et al, 2004; Sutherland & Purdy, 2006);
- gwneud yn siŵr bod pobl ifanc yn deall perthnasedd addysg i'w huchelgeisiau o ran gyrfa (Estyn, 2008b; Maguire, 2009; Ross, 2009).

### **Addysgu**

3.13. Roedd defnyddio gwahanol dechnegau dysgu yn thema gref yn yr arolwg llenyddiaeth (Armour & Sandford, 2010; Becta ICT; Callanan et al, 2009; Estyn, 2008a, 2005b; GTCfE, 2005; Riley et al, 2006; Llywodraeth yr Alban, 2007a). Yn benodol, mae defnyddio technegau arloesol megis defnyddio drama yn effeithiol wrth fynd i'r afael ag ymddieithriad pobl ifanc. Gwelwyd hefyd bod ansawdd y dulliau dysgu

a chysondeb yn yr ansawdd hwnnw yn bwysig (DCSF, 2008b; Estyn, 2008b, 2008c; Nardi & Steward, 2003; OFSTED, 2005; Reed, 2005; SRP, 2004; Steer, 2009).

3.14. Dyma rai o'r themâu eraill a nodwyd i raddau llai:

- bod ag athrawon sy'n gallu delio gyda disgyblion sydd â gwahanol gymeriadau (e.e. gwrthryfelgar, disglair ac ati) (Aymer & Okitikpi, 2001; Frankham et al, 2007);
- athrawon heb y sgiliau priodol i fynd i'r afael ag amrywiol anghenion a galluoedd pobl ifanc yn yr ystafell ddosbarth (Estyn, 2008a; Llywodraeth yr Alban, 2003);
- mae rôl cynorthwyrwyr addysgu a mentoriaid yn arbennig o bwysig wrth weithio gyda'r rheiny sydd mewn perygl o ymddieithrio (Estyn, 2008d; Frankham et al, 2007; Riley et al, 2006);
- gwerth targedu cymorth addysgu pan fydd pobl ifanc yn mynd ar ei hôl hi gyda'u gwaith (e.e. cymorth un i un) (Estyn, 2008a; Estyn, 2005a; Goodman & Gregg, 2010);
- roedd pobl ifanc yn parchu rhai priodweddau dysgu, megis dangos parch i bobl ifanc a darparu "ffiniau clir" (OFSTED, 2005; Reed, 2005; Riley et al, 2006);
- gallai ymgynghori â phobl ifanc am eu dysgu fod yn fuddiol (Riley et al, 2006; T LRB, 2003);
- roedd pobl ifanc sydd wedi ymddieithrio yn ffafrio technegau dysgu'r ysgol gynradd o'u cymharu â thechnegau dysgu traddodiadol yr ysgol uwchradd (Adams, et al, 2009; Estyn, 2008c);
- mae pobl ifanc sy'n tarfu yn y dosbarth ar lefel isel yn ei gwneud hi'n anodd i athrawon gyflwyno eu gwersi yn effeithiol (Estyn, 2005b; Gweithrediaeth yr Alban, 2004).

### **Llwyth Gwaith**

3.15. Prin iawn oedd yr astudiaethau perthnasol. Roedd y rheiny a oedd yn berthnasol yn dueddol o ganolbwyntio ar staff proffesiynol megis athrawon a Swyddogion Lles Addysg yn cael trafferth gyda llwyth

gwaith (DfES, 2004; Griggs et al, 2008; JRF, 2002; Reed, 2005; Gweithrediaeth yr Alban, 2004). Mae hyn yn awgrymu sgil-ffaith negyddol ar ansawdd profiad y person ifanc yn yr ysgol. O ran pobl ifanc, roedd nifer bach o astudiaethau yn nodi bod pobl ifanc yn ei chael yn anodd gwneud gwaith cartref o ganlyniad i'w diddordebau eraill neu'r ffaith bod gwaith ysgol Cyfnod Allweddol 4 yn gofyn mwy ohonynt. Gallai hyn waethygu'r broses o ymddieithrio a allai fod wedi ei sbarduno gan ffactorau eraill (Callanan et al, 2009; Ross, 2009).

### **Bodddhad**

- 3.16. Prin iawn oedd yr astudiaethau perthnasol a oedd yn ymwneud â bodddhad pobl ifanc. Roedd y rheiny a oedd yn berthnasol yn nodi bodddhad pobl ifanc gyda menter beilot benodol gyda'r bwriad o helpu pobl ifanc sydd wedi ymddieithrio (roedd y cynlluniau peilot hyn fel rheol yn defnyddio technegau a nodwyd eisoes megis cyrsiau galwedigaethol) (Menter, 2007; Pirrie et al, 2009; Gweithrediaeth yr Alban, 2006). Roedd astudiaethau unigol hefyd yn nodi, er enghraifft, sut y gellid cymell pobl ifanc sy'n cael trafferth yn yr ysgol gyda systemau gwobrwyo (Jones & Knowles, 2005; OFSTED, 2008), a sut nad oedd rhai ysgolion yn gallu gweithredu yn ôl dymuniadau'r bobl ifanc (Boaler & Brown, 2000; Llywodraeth yr Alban, 2003).

### **Achosion**

- 3.17. Roedd astudiaethau yn nodi pam ei bod hi'n bwysig targedu pobl ifanc wrth iddynt ddechrau ymddieithrio er mwyn osgoi problem hirdymor gydag ymddieithriad (GTCfE, 2005; OFSTED, 2008; Gweithrediaeth yr Alban, 2009; Llywodraeth yr Alban, 2007a). Dyma'r themâu allweddol eraill:
- pwysigrwydd dull holistaidd o fynd ati i adfer problemau ymddieithrio, sy'n golygu diwygio polisiau addysgol traddodiadol yn ogystal â

diwygio cymdeithasol (Bigger, 2006; Pirrie, 2009; Kendall & Kinder, 2005; Vulliamy & Webb, 2003);

- enghreifftiau o sut y gallai darpariaeth oddi ar dir yr ysgol a reolir gan yr ysgol leihau gwaharddiadau tymor penodol a pharhaol o'r ysgol (Griggs et al, 2008; Reed, 2005);
- nid yw pobl ifanc sy'n osgoi gwrthdaro gyda staff yn cael eu hadnabod fel pobl ifanc wedi ymddieithrio (NTRPC, 2006; JRF, 2002);
- yr ystod o ffactorau lefel ysgol ac unigol, megis canran y disgyblion sy'n manteisio ar brydau ysgol am ddim, a allai ddylanwadu ar gyfraddau presenoldeb cyffredinol (Biggart et al, 2003; Coles et al, 2002; Schagen et al, 2004);
- diffyg proses systematig effeithiol i nodi ac i helpu pobl ifanc i ail-ymgysylltu â darpariaeth addysgol (Estyn, 2008b; Griggs et al, 2008; Goodman & Gregg, 2010; SRP, 2004);
- yn aml, roedd gan bobl ifanc wedi ymddieithrio broblemau personol yr oedd gofyn eu goresgyn cyn y gallent neu cyn y dymument ail-ymgysylltu'n effeithiol ag addysg (GTCfE, 2005; Gweithrediaeth yr Alban, 2002; Vulliamy & Webb, 2003).

# Adran Pedwar: Canfyddiadau ymchwil yr astudiaeth hon gyda phobl ifanc

## Cyflwyniad

- 4.1 Mae'r adran hon yn amlinellu canfyddiadau'r ymchwil gyda phobl ifanc. Cânt eu nodi o dan dri o amcanion yr astudiaeth:
- Archwilio boddhad pobl ifanc gyda'r addysgu a'r dysgu y maent wedi'i gael a nodi'r ffactorau hynny sy'n achosi i bobl ifanc ymddieithrio o ddysgu;
  - Ymchwilio i'r ffactorau ysgol a chwricwlwm (gan gynnwys cyd-destun a'r modd y darperir y cwricwlwm a chyd-destun y dosbarth) sy'n dylanwadu fwyaf ar y llwybr tuag at ymddieithriad;
  - Nodi effaith agweddau ac ymddygiadau ymddieithrio ar ddyheadau ôl-16.
- 4.2 Er mwyn cyfleu llais y bobl ifanc, cânt eu dyfynnu yn uniongyrchol neu caiff eu sylwadau a'u safbwyntiau eu haralleirio, drwy ddefnyddio nodiadau'r sawl sy'n cyfweld. Er mwyn sicrhau eu bod yn anhysbys, caiff eu henwau ac unrhyw nodweddion adnabyddus eu newid neu eu dileu.
- 4.3 Mae'n anochel fod adroddiadau'r bobl ifanc yn disgrifio digwyddiadau fel y maent hwy wedi'u profi neu eu dehongli ac felly y cânt eu cyflwyno yn yr adroddiad hwn, gan mai ymgorffori safbwyntiau a phrofiadau'r bobl ifanc yw diben yr ymchwil hwn. Fodd bynnag, mae gan y dull hwn ei gyfyngiadau. Er enghraifft, mae person ifanc yn annhebygol o gynnig sylwadau beirniadol ar yr hyn y maent yn ei wybod neu wedi'i brofi mewn meysydd megis dulliau addysgu neu ddulliau dysgu os nad ydynt yn gwybod bod ffordd wahanol o wneud pethau.
- 4.4 Hefyd, mae'n bosibl na fydd y bobl ifanc yn cynnig sylwadau ar rai ymyriadau gan eu bod wedi anghofio amdanynt neu efallai eu bod yn

teimlo nad ydynt yn bwysig. Mae hyn yn golygu, tra bo'r dadansoddiad yn gallu crybwyll â pheth hyder yr hyn y mae pobl ifanc yn ei ystyried i fod yn bwysig ceir llai o ddata ar y pethau nad ydynt yn eu hystyried yn bwysig. Roedd yr astudiaeth yn gofyn rhai cwestiynau uniongyrchol. Er enghraifft, yn yr ail rownd o gyfweiliadau, gofynnwyd i bobl ifanc am gyswllt o ran cyngor ar yrfaoedd.

Nodweddion y bobl ifanc a gafodd eu cyfweld

- 4.5 Fel yr amlinellir yn Nhabl 4.14, cyfwelwyd â 47 o bobl ifanc rhwng mis Rhagfyr 2009 a mis Ebrill 2010. Cynhaliwyd cyfweiliadau mewn amrywiaeth o leoliadau dysgu (gweler Tabl 2.3) gyda 12 o bobl ifanc yn cael eu cyfweld mewn ysgolion, 12 mewn lleoliadau Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS) neu osodiadau wedi'u trefnu gan leoliadau EOTAS, 19 mewn clybiau ieuenctid neu leoliadau gwaith ieuenctid cymunedol eraill a 4 yn eu cartrefi.
- 4.6 Fel y mae Tabl 4.2 yn ei ddangos, cynhaliwyd cyfweiliadau â:
- 12 o bobl ifanc 16 oed
  - 16 o bobl ifanc 15 oed
  - 8 o bobl ifanc 14 oed
  - 5 o bobl ifanc 13 oed
  - 6 o bobl ifanc 12 oed
- 4.7 Roedd saith o'r bobl ifanc yn Derbyn Gofal gan awdurdod lleol ar y pryd.
- 4.8 Dywedodd tri o'r bobl ifanc eu bod yn cael eu trin am Anhwylder Diffyg Canolbwytio a Gorfywiogrwydd (ADHD), dywedodd un fod ganddo syndrom Asperger, dywedodd un ei fod wedi cael gwybod yn yr ysgol gynradd fod ganddo ddyslecsia a'i fod wedi cael cymorth ychwanegol ond na chafodd y diagnosis hwn ei dderbyn yn ei ysgol uwchradd a dywedodd tri arall eu bod cael cymorth anghenion addysgu arbennig yn yr ysgol. Disgrifiodd pump o'r bobl ifanc resymau iechyd a oedd



wedi arwain at golli cyfnodau sylweddol o'r ysgol gan gynnwys diabetes, poen yn y cymalau a phroblemau clywed.

<b>Tabl 4.1 Nodweddion y bobl ifanc</b>					
<b>Rhyw</b>	<b>Oed</b>	<b>Cwricwlwm</b>		<b>Natur dalgylch y lleoliad</b>	<b>Lefel Ymddieithriad* ('difrifol' neu 'cymedrol')</b>
		<b>Prif ffrwd</b>	<b>Amgen</b>		
G	16	1		Cymoedd	D
B	16		1	Trefol/gwledig	D
G	16		1	Trefol/gwledig	D
G	16		1	Trefol/gwledig	D
G	16		1	Trefol	D
G	16		1	Trefol	D
B	16		1	Trefol	D
G	16		1	Trefol/ Cymoedd	D
G	16		1	Cymoedd	D
G	16		1	Cymoedd	D
B	16	1		Cymoedd	C
B	16		1	Cymoedd	D
G	15		1	Trefol/ Cymoedd	D
B	15		1	Trefol/ Cymoedd	D
G	15		1	Trefol	D
G	15		1	Trefol	D
G	15		1	Trefol	D
G	15		1	Trefol	D
B	15	1		Trefol/gwledig	C
G	15		1	Trefol/gwledig	D
B	15		1	Cymoedd	D
G	15	1		Gwledig	C
G	15	1		Gwledig	C
B	15	1		Trefol/gwledig	C
B	15	1		Trefol/gwledig	C
B	15		1	Trefol/gwledig	D
G	15		1	Cymoedd	D
G	14	1		Gwledig	C
G	14		1	Cymoedd	C
G	14	1		Trefol	C
G	14	1		Trefol	C
G	14	1		Gwledig	C
G	14	1		Gwledig	C
B	14	1		Trefol	D
B	14		1	Trefol	D
B	13	1		Gwledig	C
B	13	1		Gwledig	C
G	13	1		Gwledig	C
B	13	1		Trefol	C
G	13	1		Gwledig	C
G	12	1		Cymoedd	C
G	12	1		Cymoedd	C
B	12	1		Trefol/gwledig	C
B	12	1		Trefol/gwledig	C
G	12	1		Trefol/gwledig	C
G	12	1		Trefol	C

<b>30 G</b> <b>17 B</b>		<b>24</b>	<b>23</b>		<b>24 Difrifol</b> <b>23 Cymedrol</b>
----------------------------	--	-----------	-----------	--	--

- 4.6 Roedd y rhan fwyaf o'r rheiny a oedd wedi ymddieithrio yn ddifrifol yn cymryd rhan mewn rhyw fath o ddarpariaeth dysgu am o leiaf rhan o'r wythnos, p'un â oedd hynny drwy uned arbennig o fewn ysgol yn cynnig cwricwlwm llai y tu allan i ddosbarthiadau prif ffrwd, darpariaeth EOTAS neu diwtor cartref. Roedd rhai yn cymryd rhan mewn darpariaeth gymysg, gan fynychu'r ysgol ar gyfer rhai gwersi neu ddyddiau a darpariaeth EOTAS ar gyfer rhai eraill. Ymhlith y bobl ifanc 14 oed neu hŷn a oedd wedi ymddieithrio'n gymedrol, roedd y rhan fwyaf ohonynt yn dilyn rhyw fath o gwricwlwm llai.
- 4.7 Fel y mae tabl 4.1 yn ei ddangos, gellir dweud bod hanner y bobl ifanc wedi ymddieithrio'n ddifrifol. Pobl ifanc oedd y rhain yn bennaf nad oeddent yn mynychu dosbarthiadau prif ffrwd ac na fyddant yn dychwelyd i'r dosbarth. Er bod y rhan fwyaf ohonynt bellach wedi ymddieithrio'n llwyr o'r ysgol (roedd nifer fechan yn dilyn cwricwlwm a oedd wedi'i leihau'n sylweddol a oedd yn golygu mynychu'r ysgol am gyfnodau o'r wythnos) nid oedd y nodweddion a nodir yn Nhabl 2.3 (y meini prawf ar gyfer dewis e.e. cymhelliad, mwynhad a phresenoldeb) i'w gweld yn eu hamgylchedd dysgu newydd. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd eu presenoldeb mewn rhyw fath o ddarpariaeth amgen, p'un ai ar safle'r ysgol neu mewn man arall, yn cael ei reoli'n llym ac roedd rhywun fel arfer yn dod i'w casglu a'u cludo gartref. Roedd y rhan fwyaf yn cymryd rhan weithredol mewn rhyw fath o ddysgu a siaradodd llawer ohonynt am fwynhau eu profiad presennol, gan ei gymharu ag atgofion mwy negyddol am yr ysgol.
- 4.8 Gofynnwyd i is-set o'r sampl pa adeg o'r flwyddyn a gawsant eu geni er mwyn nodi a oedd patrwm yn gysylltiedig â'r plant a gafodd eu geni yn hwyr yn y flwyddyn addysgol. Ni chanfuwyd unrhyw batrwm, er bod y grŵp a gafodd ei holi yn un bach.

## **Ffactorau sy'n Sbarduno Ymddieithriad**

- 4.9 Roedd yr astudiaeth yn edrych ar y ffactorau a ymddangosai fel petaent yn cyfrannu at ymddieithriad person ifanc o'r ysgol. Fodd bynnag, nid oedd hi wastad yn hawdd dehongli i ba raddau yr oedd y profiadau a'r problemau a ddisgrifiwyd yn bethau a oedd yn sbarduno ymddieithriad a/neu yn symptomau o ymddieithriad. Er enghraifft, un ffactor cyffredin a oedd yn cyfrannu at ymddieithriad oedd presenoldeb gwael ac roedd bron i bob un o'r bobl ifanc a gyfwelwyd wedi profi o leiaf un cyfnod o bresenoldeb gwael yn yr ysgol. Roedd rhai nad oeddent wedi mynychu llawer ers blynyddoedd. Fodd bynnag, nid oedd hi'n glir beth a oedd yn achosi i bresenoldeb ddechrau dirywio. Hefyd, roedd rhai o'r bobl ifanc nad oeddent yn mynychur ysgol yn aml ond a oedd yn dal i'w ddisgrifio fel lle da.
- 4.10 Waeth beth oedd y rhesymau dros bresenoldeb gwael, roedd y bobl ifanc yn disgrifio sut yr oedd methu'r ysgol yn cael effaith gronol, a'r mwyaf yr oeddent yn ei fethu, yr anoddach yr oedd hi i ddal i fyny, y pellach y tu ôl i bawb arall yr oeddent yn llithro, y lleiaf tebygol yr oeddent i deimlo'n llwyddiannus yn y dosbarth, y mwyaf tebygol yr oeddent o greu trafferth a chael eu hanfon allan, gan arwain at fethu rhagor o ysgol.

*"..os oeddech chi'n methu'r ysgol, roedd disgwyl i chi gopïo'r gwaith gan rywun arall, ond doeddech chi ddim yn cael help ychwanegol i ddeall beth oeddech chi'n ei gopïo, nac unrhyw eglurhad o'r gwaith. Felly, roedd hi'n anodd bwrw 'mlaen a gweddill y gwaith gan fod darn mawr ohono nad oeddech chi wedi'i ddeall."*

*"Roedd y dosbarthiadau yn fawr, 30 ohona' ni, ac erbyn i'r athro ddod draw roeddwn i fel arfer wedi gwneud rhywbeth twp. Erbyn blwyddyn 8 roeddwn i mewn dosbarthiadau arbennig ac roeddent yn fy anfon adref am hanner y diwrnod, felly roeddwn i'n methu'r wers Saesneg ac roedd yn rhaid i mi ddal i fyny."*

4.11 Y broblem a grybwyllwyd fwyaf wrth i'r bobl ifanc ddisgrifio yr hyn yr oeddent yn ei gasáu am yr ysgol oedd athrawon ac ymddygiad athrawon (10 o'r rhai a gafodd eu cyfweld). Yn ogystal: nododd 9 o'r bobl ifanc fod bwlio yn broblem iddynt: nododd chwech eu bod wedi methu cyfnodau o ysgol o ganlyniad i iechyd gwael; dywedodd pump fod y gwaith wedi mynd yn rhy anodd iddynt: dywedodd pedwar fod ganddynt anawsterau dysgu a olygai eu bod yn cael trafferth darllen: dywedodd pedwar eu bod wedi diflasu: dywedodd pedwar eu bod yn ymladd o hyd ac felly yn mynd i drafferthion a dywedodd tri arall eu bod wedi cael problemau â disgyblion eraill yn yr ysgol. Dywedodd eraill (tri) eu bod yn casáu sŵn a thorfeydd a oedd yn golygu bod maint y dosbarth yn broblem iddynt.

4.12 Nid oedd ystyried ffactorau y tu allan i fywyd yr ysgol a oedd yn cyfrannu at ymddieithriad yn rhan o gylch gwaith yr astudiaeth hon ac ni ofynnwyd i bobl ifanc am eu bywyd yn y cartref nag unrhyw beth arall y tu allan i'r ysgol a oedd yn rhoi pwysau arnynt. Er hynny, roedd hi'n glir pan oeddent yn siarad am eu profiadau bod cysylltiad rhwng y pethau a oedd yn sbarduno ymddieithriad megis ymddygiad a phresenoldeb gwael a digwyddiadau a thrawma yn y cartref. Roedd y bobl ifanc eu hunain yn ddiystyriol o'r pethau hyn ac roeddent yn dueddol o fod yn warchodol iawn o'u teuluoedd ac yn awyddus iawn i bwysleisio mai nhw yn unig oedd yn gyfrifol am bethau megis presenoldeb. Fodd bynnag, wrth drafod yr amserlen, roedd hi'n gyffredin gweld dirywiad mewn ymddygiad yn ystod cyfnod anodd e.e. rhieni wedi gwahanu, nain/mam-gu wedi marw, tad wedi mynd i'r carchar.

*“Roeddwn i'n arfer hoffi mynd i'r ysgol, ond pan wahanodd mam a dad, fe aeth popeth o'i le”*

4.13 Mewn rhai achosion, roedd profiadau bywyd yn ei gwneud yn amhosibl i berson ifanc ganolbwyntio ar ei addysg gan ei fod yn gorfod canolbwyntio ei brif ymdrechion ar oroesi o un diwrnod i'r llall.

*“Rydw i wedi bod mewn tua 8 o gartrefi maeth yn y flwyddyn ddiwethaf; tydw i ddim yn trafferthu dadbacio fy nghês erbyn hyn. Mae’r un yr ydw i ynddo nawr yn [enw’r lle] (20 milltir i ffwrdd o’i ddarpariaeth EOTAS) a dim ond ychydig o ddiwrnodau yr ydw i wedi bod yno, ond tydw i heb fod yn ôl ers y penwythnos”*

- 4.14 Yn olaf, dylid nodi bod llawer o’r bobl ifanc a gyfwelwyd yn disgrifio bod yr ysgol wedi ymddieithrio oddi wrthynt hwy yn hytrach na’u bod hwy wedi ymddieithrio o’r ysgol. Fodd bynnag, roedd eraill yn werthfawrogol pan oedd hi’n glir iddynt nad oedd yr ysgol, neu athrawon unigol o fewn yr ysgol, wedi rhoi’r gorau i’w helpu. Gallai hyd yn oed y rhai hynny a oedd yn absennol yn aml fod yn bositif iawn am rai agweddau ar eu haddysg a gwerthfawrogi’r ymdrechion a oedd yn cael eu gwneud i’w helpu. Er enghraifft, roedd gan un o’r bobl ifanc bresenoldeb o lai na 60%, ond dywedodd fod ei ysgol yn un dda. Roedd Kelly yn gwerthfawrogi faint o gyfleoedd yr oedd hi wedi’u cael a bod yr ysgol heb roi’r gorau i’w helpu:

*“gallen nhw fod wedi fy nhaflu allan o’r ysgol, ond maen nhw wedi rhoi cyfle arall i mi yma”*

### **Cwricwlwm a dewis**

- 4.15 Dangosodd yr ymchwiler fod y bobl ifanc 15 oed a hŷn yn cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o ddewisiadau cwricwlwm, a hynny o ran cynnwys, maint y ddarpariaeth a dulliau darparu. O’i gymharu, o’r bobl ifanc 14 oed ac iau, dim ond dau a oedd yn rhan o unrhyw ddewisiadau nad oeddent yn perthyn i’r prif ffrwd: roedd un person 14 oed yn dilyn cwricwlwm llai a oedd yn golygu ei fod yn mynychu’r ysgol am ran o ddiwrnod yr ysgol ac yn gweithio mewn grŵp bychan y tu allan i amgylchedd y dosbarth ac roedd unigolyn 14 oed arall mewn darpariaeth EOTAS. Yn ogystal, disgrifiodd un plentyn 12 oed ei fod yn cael gwersi llythrennedd ychwanegol. Roedd gweddill y bobl ifanc 14

oed ac iau yn dilyn yr un cwricwlwm a'u cyfoedion yn y grŵp blwyddyn. Dywedodd hanner y bobl ifanc a gyfwelwyd fod eu problemau wedi dechrau yn yr ysgol gynradd, ac roedd o leiaf un wedi'i wahardd yn barhaol o'i ysgol ym mlwyddyn 6, sef y flwyddyn olaf yn yr ysgol gynradd (gweler astudiaeth achos John) ac roedd un arall wedi mynychu canolfan gymorth arbenigol o flynyddoedd 4 i 5. Ni chrybwyllodd yr un o'r bobl ifanc dan 14 oed eu bod wedi cael unrhyw ddewis o ran yr hyn yr oeddent yn ei astudio.

- 4.16 Fel y nodir uchod, roedd gan y bobl ifanc 15 oed a hŷn gwricwlwm mwy amrywiol na disgyblion iau, ond tra bo'r grŵp hŷn hwn yn profi ystod eang o wahanol bynciau a lleoliadau dysgu *ar draws* eu grŵp, o fewn pob lleoliad roedd y dewisiadau a oedd ar gael i'r person ifanc a oedd wedi ymddieithrio yn aml yn brin iawn gan eu bod wedi'u cyfyngu i'r hyn y gallai'r ysgol ei gynnig neu'r hyn a oedd ar gael yn lleol o fewn y lleoliad EOTAS neu'r Uned Gyfeirio Disgyblion agosaf. Roedd peth tystiolaeth yn awgrymu nad oedd pobl ifanc bob tro yn cymryd rhan wrth benderfynu beth y gallant ei wneud. Er enghraifft, pan oedd Phil yn 16 oed, roedd mewn darpariaeth EOTAS ond ni oedd yn gallu deall pam ei fod wedi cael ei roi ar y cyrsiau yr oedd yn eu hastudio.

*“Fe ges i amserlen, dwn i ddim pam. Rydw i'n gwneud manwerthu ar ddydd Llun gan fod yr athro wedi fy rhoi arno – beth yw'r pwynt i fi wneud hynny?”*

*“Roeddwn i wrth fy modd â pheirianeg ond roeddwn i'n casáu'r athro - fe gaethon ni sgarmes ac fe ges i fy ngwahardd o'i wersi - rydw i dal eisiau gwneud y pwnc, ond dydyn nhw ddim yn ei wneud fan hyn (darpariaeth EOTAS).”*

- 4.17 Dim ond lleoliadau dysgu mewn ysgol a ddisgrifiwyd fel rhai a oedd yn mynd i'r afael â phroblemau ag ymddygiad yn ogystal â galluogi pobl ifanc i barhau i gymryd rhan mewn, ar y lleiaf, fersiwn llai o gwricwlwm prif ffrwd ac roedd y bobl ifanc hynny a oedd yn rhan o'r dull hwn yn

gefnogol iawn ohono. Er, mewn un achos, roedd y person ifanc o'r farn fod y cymorth wedi'i gynnig yn rhy hwyr i'w alluogi i lwyddo yn ei TGAU. Roedd nifer o'r bobl ifanc yn beirniadu'r bobl a oedd yn cymryd yn ganiataol, gan eu bod yn ymddwyn yn wael neu nad oeddent yn hoffi'r ysgol, na fyddant yn ennill unrhyw gymwysterau TGAU.

*“Dwi'n hoffi mathemateg ac yn teimlo'n dda am ei wneud, ond gan fy mod i yn set 5, y cwbl dwi'n ei wneud yn y wers yw mesur llinellau gyda phren mesur. Dwi'n gallu deall pethau'n gyflym ond dwi yng nghanol pobl 'dwp', felly dwi'n diflasu. Gan mai dim ond am 2 ddiwrnod yr wythnos yr ydw i'n mynd i'r ysgol, dwi'n gwneud TGAU lefel isel ond mae gen i'r gallu i wneud graddau uwch ond tydw i ddim yn gallu gan mai dim ond am ddau ddiwrnod yr ydw i'n mynd.”*

- 4.18 Roedd tystiolaeth gan y bobl ifanc a oedd yn dangos sut yr oedd eu dewisiadau ym mlwyddyn 9 wedi helpu ychydig o'r rhai hynny yn eu plith a oedd wedi ymddieithrio'n gymedrol i ail-ymgysylltu. Disgrifiodd pedwar person ifanc sut yr oeddent prin yn mynychu ym mlynnyddoedd 8 a 9 a'u bod yn gwella ym mlwyddyn 10 gan eu bod yn gallu rhoi'r gorau i'r gwersi nad oeddent yn eu hoffi. Fodd bynnag, nid oedd pob un ohonynt yn teimlo eu bod wedi gwneud dewisiadau doeth. Roedd hi'n ymddangos mai ychydig iawn o gymorth a gafodd llawer ohonynt wrth ddewis eu pynciau, a dywedodd y rhan fwyaf ohonynt eu bod wedi dewis pynciau gan fod eu ffrindiau wedi'u dewis, fel yr esboniodd Carrie:

*“Roeddwn i wastad yn dda mewn celf, roeddwn i wrth fy modd. Ond aeth fy ffrindiau i ddim felly es i ddim.”*

- 4.19 Dywedodd Gavin ei fod wedi cael ei 'daflu allan' am chwe wythnos ym mlwyddyn naw, ac fe gollodd y cyfle i wneud dewisiadau 'felly fe ges i beth oedd ar ôl'.

## **Perthnasedd y Cwricwlwm**

4.20 Roedd y bobl ifanc yn fwy tebygol o feirniadu adrannau'r cwricwlwm yn ôl faint yr oeddent yn mwynhau'r gwersi yn hytrach na pha mor berthnasol oeddent, er bod ieithoedd yn fwy tebygol o gael eu beirniadu am y ddau beth. Roedd y bobl ifanc, yn arbennig y gwrywod, yn fwy tebygol o gynnig sylwadau ar ba mor anodd oedd dysgu iaith, ansawdd (gwael) yr addysgu, eu hatgasedd wrth orfod siarad yr iaith yn y dosbarth a (diffyg) perthnasedd dysgu ieithoedd tramor yn ogystal â dysgu Cymraeg. Roedd Cymraeg yn cael ei feirniadu fwyaf am y ffordd yr oedd yn cael ei addysgu, gan nad oedd llawer yn gweld diben ei ddysgu. Roedd pedwar enghraifft o bobl ifanc mewn lleoliadau EOTAS a oedd wedi gorfod gofyn i weithwyr pa bynciau yr oeddent yn eu hastudio ac eraill nad oeddent yn gwybod pa gymwysterau, os o gwbl, yr oeddent yn gweithio tuag atynt. Perthnasedd y cwricwlwm i'r bobl hyn oedd y ffaith eu bod yn ei fwynhau.

4.21 Wrth i bobl ifanc nesáu at ddiwedd eu cyfnod yn yr ysgol, roedd y rhan fwyaf wedi meddwl am eu camau nesaf a ble yr oeddent am fynd. Mewn rhai achosion, roedd hyn wedi gwneud y cwricwlwm yn fwy perthnasol. Dywedodd leuan, er enghraifft, fod ei bresenoldeb wedi gwella ers iddo ddechrau ar ei TGAU a'i fod '*wedi callio*', yn bennaf meddai ef o ganlyniad i ddylanwad ei fam. Dywedodd Sion dro ar ôl tro ei fod bellach 'ar y trywydd iawn' ar ôl blynyddoedd o bresenoldeb gwael a'i fod yn gwybod i ble yr oedd yn mynd:

*“dyw'r ysgol ddim o unrhyw help ond dwi'n gwybod bod angen y TGAU arna'i er mwyn gwneud cwrs adeiladu.”*

4.22 Roedd rhai ym mlwyddyn 11 yn teimlo eu bod wedi sylweddoli ar berthnasedd y cwricwlwm yn rhy hwyr. Disgrifiodd Sam ei bod hi'n dyheu i fod yn stiwardes awyr ond gan ei bod hi wedi methu cymaint o'r ysgol ers blwyddyn 8 roedd hi'n teimlo ei bod hi'n wastraff amser hyd yn oed rhoi cynnig ar ennill unrhyw TGAU erbyn hyn, ac y byddai'n rhaid iddi ddechrau eto yn y coleg.



## Hyblygrwydd y Cwricwlwm

- 4.23 Fel y nodir uchod, mae tystiolaeth y bobl ifanc yn dangos nad oedd llawer o hyblygrwydd yn y cwricwlwm cyn iddynt gyrraedd 14 neu 15 oed. Ar ôl y cyfnod hwn, tra bo amrywiaeth sylweddol yn y cwricwlwm yr oedd y bobl ifanc yn ei ddilyn ar draws gwahanol leoliadau dysgu, roedd cyfyngiadau ar faint yr oedd llawer ohono yn ymwneud â dewis. Roedd 22 o'r 28 o bobl ifanc rhwng 15 a 16 oed yn astudio cwricwlwm a oedd wedi'i leihau yn sylweddol (2 neu 3 pwnc yn unig) neu gwricwlwm arbenigol (sgiliau allweddol a rhaglenni datblygu personol). Dim ond chwe pherson ifanc yn y grŵp oedran hwn a oedd yn astudio pump TGAU neu fwy.
- 4.24 Roedd amrywiadau sylweddol yn y cwricwlwm yr oedd y bobl ifanc yn ei astudio ar draws ysgolion a siroedd, cymaint felly fel bod person ifanc mewn un ardal yn dilyn cwricwlwm galwedigaethol tra bod un arall gyda'r un hanes mewn ysgol wahanol yn dilyn cwricwlwm datblygiad personol yn unig. Roedd hi'n ymddangos bod amrywiadau yn y mynediad at / lefel y gefnogaeth sgiliau sylfaenol yr oedd pobl ifanc yn ei chael, lle'r oedd rhai yn cael cefnogaeth sgiliau sylfaenol ddwys er eu bod yn gallu darllen, ac eraill yn cael ychydig iawn o gefnogaeth er eu bod ei hangen. Er enghraifft, mae Glyn yn fachgen 16 oed sy'n methu darllen ac sy'n cael ychydig iawn o help gyda hyn, tra bo gan Ceri (gweler yr astudiaeth achos) lythrennedd da ond mae hi bellach yn astudio sgiliau allweddol a mathemateg sylfaenol er ei bod hi wedi bod mewn dosbarth TGAU mathemateg gradd uwch.

*“Mae gen i broblem ers yr ysgol gynradd ond ches i ddim help gyda Saesneg a mathemateg yno. I ddechrau, ches i ddim help gyda Saesneg a mathemateg yn yr ysgol gyfun chwaith ac yna fe ges i hanner awr bob pythefnos. Doeddwn i ddim yn gallu darllen.”*

## Cwricwlwm sy'n Canolbwyntio ar y Disgybl

4.25 Nid oedd hi'n glir bob tro faint yr oedd y cwricwlwm a ddilyna'r bobl ifanc yn canolbwyntio ar y disgybl. Roedd yr amrywiaeth o wahanol raglenni yr oedd y cyfweledigion yn rhan ohonynt yn awgrymu bod hyblygrwydd i ymateb i anghenion disgyblion ond, fel y nodir uchod, yr unig adegau y disgrifiodd y cyfweledigion eu bod wedi dewis pa ddysgu yr oeddent yn rhan ohono oedd mewn perthynas â dewisiadau pwnc ar gwricwlwm TGAU safonol. Roedd tystiolaeth y bobl ifanc yn awgrymu bod y camau y mae ysgolion yn eu cymryd i reoli ymddygiad, neu o leiaf i leihau effeithiau ymddygiad gwael ar bobl ifanc eraill, yn cael mwy o effaith ar lywio'r cwricwlwm a gynigir i lawer o'r cyfweledigion yn hytrach na'u hanghenion unigol.

*“Roedd y set uchaf yn hawdd ond rydw i wedi symud i'r set isaf erbyn hyn oherwydd fy ymddygiad. Mae yna fachgen yn fy set mathemateg sy'n wych ac fe ddylai fod yn set 1, ond oherwydd ei ymddygiad dyw e' ddim yn cael bod yn y set uchaf.”*

*“Roeddwn i eisiau dewis Cymraeg, mae angen i fi wneud ieithoedd gan fy mod i eisiau gwneud cwrs mecaneg yng Ngholeg x lle'r ydych chi'n gweithio yn yr Almaen am gyfnod, ond dydyn nhw ddim yn gwneud unrhyw beth tebyg i hynny fan hyn (darpariaeth EOTAS)”*

4.26 Roedd enghreifftiau hefyd o sut yr oedd y gefnogaeth yr oedd y cyfweledigion yn ei chael er mwyn dal i fyny â diffyg sgiliau sylfaenol yn torri ar draws yr agweddau ar y cwricwlwm yr oeddent yn eu hoffi orau:

*“Rydw i'n cael gwersi ychwanegol ar gyfer darllen a mathemateg ond dydw i ddim yn hoffi methu celf gan fy mod i'n hoffi arlunio ac rydw i'n methu TG, a dwi'n casáu hynny.” (disgybl blwyddyn 7)*

4.27 Roedd chwech o'r bobl ifanc yn astudio cwricwlwm a oedd wedi'i leihau yn sylweddol yn yr ysgol a oedd yn golygu eu bod yn yr ysgol am gyfnod llai bob dydd ac, mewn dau achos, yn gweithio y tu allan i amgylchedd normal y dosbarth pan oeddent yn yr ysgol. Tra bo

tystiolaeth yn dangos bod yr ysgol, yn yr achosion hyn, wedi mynd i gryn dipyn o ymdrech i ennyn diddordeb y bobl ifanc, roedd llai o dystiolaeth o ddewis yn y cwricwlwm gan fod pob un ohonynt yn astudio'r un pynciau craidd.

### **Cwricwlwm y gellir ei fwynhau**

- 4.28 Siaradai'r bobl ifanc am agweddau ar y cwricwlwm yr oeddent yn eu mwynhau yn fawr. Roedd lleiafrif bychan nad oeddent erioed wedi mwynhau unrhyw beth am yr ysgol a dysgu, ond roedd gan y rhan fwyaf enghreifftiau o bethau yr oeddent yn eu hoffi. Yr hyn nad yw'n syndod yw bod pobl ifanc yn fwy tebygol o fwynhau rhywbeth yr oeddent yn teimlo eu bod yn gallu ei wneud neu'n dda am ei wneud. Fodd bynnag, roeddent yn aml yn gwerthfawrogi'r heriau a gynigir gan y rhaglenni sy'n eu cymryd allan o'r dosbarth ac sy'n cael eu cynnal gan asiantaethau eraill. Dywedodd y bobl ifanc hefyd eu bod yn mwynhau dosbarthiadau lle'r oeddent yn gallu cyfrannu (*gallwch siarad ag e'*); lle defnyddir dulliau cyflwyno hwyliog (*gallwch chwervthin gyda hi*); a lle mae amrywiaeth yn yr hyn yr oeddent yn ei wneud, hynny yw tripiâu, peth gwaith ymarferol, torri ar yr un hen drefn. Disgrifiodd y bobl ifanc enghreifftiau o wersi lle'r oedd yr athro wedi ennyn eu diddordeb, gan gofio dull yr athro. Disgrifiodd Dai, er enghraifft, sut yr oedd ei bennaeth blwyddyn yn gwneud yr ysgol yn hwyl:

*“roedd yn cadw at ei air, ac yn mynd â ni allan, roedd yn dysgu Saesneg ac yn ei wneud yn hwyl – unwaith, fe roddodd bentwr o arian ar y ddesg a dweud wrthym ni am wneud bet ac y byddai'n rhoi'r arian i ni. Ambell waith, byddai rhai o'r bechgyn yn cael y cwestiwn yn gywir ac roedd yn rhoi'r arian iddyn nhw – yn cadw at ei air.”*

*“mae'r athro yn dda, mae'n eich cywiro chi os ydych chi'n gwneud rhywbeth yn anghywir, ond mewn ffordd dda, dim drwy weiddi neu wneud i chi edrych yn dwp.”*

- 4.29 Siaradodd traean o'r bobl ifanc am hoffi pynciau ymarferol megis celf, cyrsiau adeiladu neu raglenni datblygiad personol yn fwy na gwaith a oedd yn seiliedig ar lyfrau. Yn bendant mae rhan o hyn yn gysylltiedig â'r ffaith eu bod yn disgrifio'u hunain i fod yn 'dda' yn y pynciau hyn, neu eu bod o leiaf yn gallu eu gwneud; maent yn derbyn clod gan yr athrawon dan sylw o ganlyniad a chaiff hyn ei gymharu â phynciau eraill lle maent yn teimlo fod ganddynt lai o allu neu eu bod yn cael eu gwobrwyo llai.

*"Rwy'n hoffi technoleg gan ein bod ni'n cael gwneud rhywbeth gwahanol bob 4-6 wythnos fel TG, electroneg, coginio, gwaith coed ac rydych chi'n gwneud pethau fel seinyddion. Hefyd, rydych chi'n cael gwahanol athrawon bob hyn a hyn, felly os nad ydych chi'n eu hoffi neu os ydych chi wedi diflasu arnyn nhw, mi fydda nhw wedi mynd mewn ychydig wersi."*

*"Y gorau yw (cwrs a gynhelir yn yr ysgol ar gyfer disgyblion sydd mewn perygl o ddieithrio) - gan eich bod chi'n cael mynd allan, mae'r dosbarth yn fach - dim ond 12 ac mae'r athro yn 'foi iawn', yn hawdd siarad ag o, yn ddoniol, yn ddigyffro ac yn eich helpu chi"*.

### **Cyfyngiadau cwricwlwm ac ymddieithriad**

- 4.30 Roedd llawer o'r bobl ifanc, erbyn iddynt gyrraedd blwyddyn 9 pan fyddant yn dewis eu pynciau, eisoes wedi ymddieithrio o ddysgu i lefel ddifrifol. Roedd ychydig wedi ymddieithrio cyn iddynt adael yr ysgol gynradd. I'r bobl hyn, roedd rhwystrau sylweddol o ran cael mynediad at gwricwlwm hyblyg, hyd yn oed mewn ysgol lle'r oedd cwricwlwm eang ar gael. Fel y nodir yn 4.7, ni ddisgrifwyd y cwricwlwm fel ffactor yn eu hymddieithriad a thra bo'r dewis ym mlwyddyn 10 wedi helpu i ail-ennyn diddordeb rhai o'r disgyblion hyn a oedd wedi ymddieithrio'n gymedrol, roedd y ffactorau a oedd yn achosi ymddieithriad a ddisgrifwyd yn ymwneud mwy ag integreiddiad, aeddfedrwydd emosiynol a digwyddiadau y tu allan i'r ysgol na'r dewis o bynciau.

Roedd o leiaf hanner y cyfweledigion hŷn a oedd wedi ymddieithrio'n sylweddol nad oeddent yn gallu darllen neu roedd ganddynt sgiliau llythrennedd gwael ac roedd llawer ohonynt wedi methu goresgyn y rhwystrau cymdeithasol ac emosiynol sylweddol a oedd wedi effeithio ar eu profiad yn yr ysgol, mewn rhai achosion o'u blynyddoedd cynnar.

- 4.31 Dywedodd 31 o'r 47 o bobl ifanc eu bod yn bwriadu, neu'n disgwyl, mynd i'r coleg ar ôl gadael yr ysgol. Ond, ym marn y cyfwelwyr, byddai gofyn cael cwricwlwm tra hyblyg ac ymatebol wedi'i gyflwyno mewn ffordd gefnogol iawn i gadw rhai ohonynt yno.

### **Athrawon ac Addysgu**

- 4.32 Fel y nodwyd yn 4.9, cafodd athrawon eu henwi yn fwy aml na'r un ffactor arall o ran pethau sy'n cyfrannu at ymddieithriad ymhlith pobl ifanc. Gallai perthynas wael ag un athro gael effaith anghyfartal, a hynny wrth i bobl ifanc ddisgrifio eu bod yn osgoi mynd i'r ysgol ar y diwrnodau hynny lle'r oeddent i fod i gyfarfod athro penodol, ac felly roeddent yn methu gwarsi eraill ar y diwrnod hwnnw hefyd. Roedd merched yn fwy tebygol na bechgyn i nodi problem benodol a oedd wedi achosi niwed, megis athro yn eu bychanu o flaen y dosbarth.
- 4.33 Y gŵyn fwyaf cyffredin am addysgu oedd ei fod yn cael ei ddisgrifio i fod yn 'ddiflas'. Gan fod hanner y cyfweledigion yn cymryd rhan mewn rhyw fath o brofiad addysgol amgen, roeddent yn gallu cymharu eu profiad addysgu/dysgu presennol gyda'u profiad blaenorol yn y dosbarth. Roeddent yn gwerthfawrogi'r sylw yr oeddent yn ei gael gan diwtoriaid/athrawon o ganlyniad i fod mewn grwpiau bach; yr hyblygrwydd ac, yn aml, anffurfioldeb y dulliau cyflwyno a gynigwyd; pa mor gyfforddus oeddent gyda'r cwricwlwm (ni soniodd yr un ohonynt ei fod yn anodd neu'n heriol o'i gymharu â gwaith ysgol); a'r ffaith fod staff yn cynnig cefnogaeth bersonol. Soniodd nifer o'r bobl ifanc am werthfawrogi sylw unigol a thystiolaeth fod gan athrawon, tiwtoriaid a gweithwyr cymorth ddiddordeb ynddynt.

*“Roedd yr Uned Cyfeirio Disgyblion mor ddiflas, wnaethon ni ddim byd yno, ond y tiwtor cartref oedd y gorau gan nad oedd yn gweiddi, dim ond yn siarad un i un. Fe wnes i gymaint yn well yn astudio Saesneg a darllen fel hyn.”*

- 4.34 Siaradodd chwech o'r bobl ifanc am deimlo fod athrawon eisoes wedi gwneud eu meddyliau i fyny amdanynt (wedi ymddieithrio oddi wrthynt) cyn iddynt hyd yn oed gyrraedd yr ysgol, a hynny ar sail hanes eu teulu.

*“Dyweddodd yr athrawon wrtha'i na fyddai dim yn dod ohona'i, ac y byddwn i ar y dôl, yn union fel fy mrawd.”*

*“Rwy'n gwybod fy mod i wedi ymddwyn yn wael...ond roedd yr athro eisoes wedi gwneud ei feddwl i fyny amdana'i yn barod gan ei fod yn cofio fy nhad a fy ewythr.”*

Disgrifiodd rhai o'r bobl ifanc fod athrawon yn rhoi'r gorau i ymdrechu gyda rhai disgyblion os oeddent yn araf neu'n anodd:

*“Roedd pobl wedi clywed am fy nghyflwr cyn i mi gyrraedd, felly fe ges i brofiad drwg iawn yn yr ysgol gyfun. Roedd fy ADHD yn rhoi esgus i athrawon beidio â gwrando arna'i.”*

*“..felly fe ddechreuais i ar ei hôl hi ym mlwyddyn 7 – doedd 'na ddim cymorth ychwanegol ar gael ac roeddwn i'n gallu ymdopi os oedd gen i berthynas dda â'r athro, ond gyda'r lleill, roeddwn i'n mynd adref. Bai yr athrawon oedd e' – roedd un wastad yn fy ngalw i'n 'Charlie Boy', ac nid dyna fy enw.”*

*“Doeddwn i ddim yn gwybod beth i'w wneud a doeddwn i ddim yn gallu darllen. Doedd yr athrawon ddim yn fy hoffi a doeddwn i ddim yn eu hoffi nhw.”*

- 4.35 Disgrifiodd y bobl ifanc pa mor bwysig oedd cael perthynas bositif ag athro ac roedd hi'n amlwg fod rhai ohonynt yn ysu am y cadarnhad hwnnw. Er enghraifft, pan ofynnwyd i Alun am enghraifft bositif o'r ysgol, fe gofiodd unwaith fod athro wedi dweud wrtho ei fod yn ddeallus a disgrifiodd eraill sut y byddent yn newid eu hymddygiad i blesio athro yr oeddent yn ei hoffi, neu i dreulio amser â hwy.

*“Os ydw i'n hoffi'r athro, mi fyddai'n ymddwyn yn dda.”*

*“Roeddwn i ymhell ar ei hôl hi yn fy mlwyddyn olaf yn yr ysgol gynradd ac roeddwn i'n arfer mynd i'r toiledau neu roi fy mhen ar y ddesg. Yna byddai'r athro yn gweiddi ac yn fy anfon at y pennaeth, a dyna'r rhan gorau, roedd yn rhoi lolipop i mi!”*

- 4.36 Roedd yr athrawon a'r gweithwyr cymorth da, fel y'u disgrifiwyd gan y bobl ifanc, yn garedig, yn ddibynadwy, yn gyson ac yn ddigynnwrf. Dywedodd Jake, er enghraifft, fod ganddo weithiwr gwych o'r Tîm Troseddau Ieuentid sy'n galw amdano ac *'yn fy llusgo allan o'r gwely i wneud pethau'*. Mae gan Jake feddwl mawr ohono a dywedodd ei fod wedi gwella gan fod ei weithiwr yn gefn iddo drwy'r amser a ddim yn ei siomi.
- 4.37 Roedd y dynion ifanc yn arbennig yn gwerthfawrogi athrawon gwrywaidd ac roedd hi'n amlwg nad oedd llawer ohonynt yn dilyn esiampol ffigurau gwrywaidd y tu allan i'r ysgol. Roedd cael y cyfle i siarad ag oedolyn gwrywaidd am, er enghraifft, pêl-droed a chwaraeon, yn cael ei grybwyll gan nifer o ddynion ifanc. Mewn cyfeiriadau positif a negyddol at aelodau unigol o staff, roedd athrawon, tiwtoriaid a gweithwyr cymorth gwrywaidd yn fwy tebygol o gael eu crybwyll.
- 4.38 Mewn rhai achosion, roedd modd gweld sut yr oedd y berthynas rhwng pobl ifanc a staff yn amrywio a sut y dylanwadwyd ar farn y bobl ifanc am y cwricwlwm ac ar addysgu gan ymateb y person ifanc i'r athro dan

sylw. Mewn un lleoliad, er enghraifft, disgrifiodd person ifanc un pwnc fel yr un gorau o lawer, gan fod yr athro yn dda iawn a'i fod yn hoff iawn ohono. Siaradodd y person ifanc nesaf am yr un pwnc a sut yr oedd hi'n ei gasau gan fod (yr un) athro yn ofnadwy. Mae'r esiampl hwn yn dangos pa mor anodd yw gwahanu'r cysylltiad ysbeidiol rhwng ymddieithriad ac athro, athro neu bwnc. Felly, er enghraifft, mae person ifanc sydd o'r farn fod pwnc yn ddiflas yn fwy tebygol o fod yn heriol i'w addysgu ac mae'r gwrthdaro sydd i ddilyn yn llai tebygol o hwyluso perthynas bositif rhwng y myfyriwr/athro. Roedd gweithwyr cymorth a thiworiaid a oedd yn gweithio y tu allan i leoliad prif ffrwd y dosbarth yn cael eu gweld yn bositif yn fwy cyson, gyda'r grwpiau llai yn cael eu gweld fel cyfle i ddod i'w hadnabod.

## Dysgu

- 4.39 Wrth siarad am p'un a oeddent yn hoffi mynd i'r ysgol, roedd y rhan fwyaf o bobl ifanc yn canolbwyntio ar eu perthynas â staff yr ysgol a chyda'u cyfoedion fel y prif ffactor sy'n gwneud iddynt fwynhau'r ysgol (*mae pob un o fy ffrindiau yno*) neu sy'n golygu nad ydynt yn mwynhau'r ysgol (*mae pobl yn pigo arna i*). Fodd bynnag, pan ofynnwyd pam yr oedd yr ysgol yn bwysig, anaml iawn y byddant yn nodi unrhyw ddiben ar wahân i gymwysterau a dim ond un a ddisgrifiodd sut yr oedd ysgol yn datblygu sgiliau cymdeithasol.
- 4.40 Fel y nodir uchod, daeth yn amlwg fod maint y dosbarth a'r sefydliad yn broblem o ran dysgu, yn bennaf ymhlith y rhai sydd wedi ymddieithrio fwyaf. Disgrifiodd y bobl ifanc hyn, yn benodol, eu bod yn teimlo bod dosbarthiadau mawr yn anodd a'u bod angen sylw unigol. Dywedodd tri o'r bobl ifanc a oedd wedi ymddieithrio fwyaf nad oeddent erioed (o'r ysgol fabanod) wedi gallu ymdopi â thorfeydd a sŵn a dywedodd dau arall yn y grŵp hwn nad oeddent yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol o ganlyniad i'r hyn a welsant fel diffyg disgyblaeth. Disgrifiodd y ddau ddisgybl hyn sut yr oeddent wedi bod yn dreisgar yn y gorffennol gan gyfaddef eu bod wedi bwlio neu ymosod ar eraill. Dywedodd y ddau



nad oeddent yn falch o'u gweithredoedd ond eu bod yn teimlo fod yn rhaid iddynt ymddwyn felly mewn amgylchedd a oedd, yn eu barn nhw, yn un peryglus. Hyd yn oed pan nad oedd pobl ifanc yn disgrifio eu bod yn ofnus, roeddent yn gweld diffyg rheolaeth yn y dosbarth fel profiad negyddol.

“Graffeg yw fy nghas wers - mae'n anodd, does gen i ddim cyfrifiadur adref a does dim help i gael gyda'r gwaith. Rydw i'n methu sesiwn ar ddechrau'r wythnos gan ei fod yn gwrthdaro â phwnc arall ac rydw i'n cael trafferth deall y gwaith o'r herwydd. Mae'r dosbarth graffeg yn gymysgedd o oedrannau, blwyddyn 11 a hŷn, a dyw'r athro ddim yn trafferthu rhyw lawer, felly rwy'n treulio fy amser yn chwarae gemau.”

- 4.41 Roedd rhai arwyddion cynnar ymhlith y chwe o'r bobl ieuengaf (blwyddyn 7) o'r modd yr oeddent yn dechrau ymddieithrio fel dysgwyr. Roedd pob un o ddisgyblion blwyddyn 7 a gymerodd ran yn yr astudiaeth hon eisoes wedi dangos arwyddion o bresenoldeb gwael, roedd un wedi bod mewn canolfan ddarparu arbenigol ar gyfer blynyddoedd 4 a 5 ac roedd un ar feddyginiaeth ar gyfer ADHD. Roedd y brwdfrydedd dros ddysgu hefyd yn pylu. Roedd o leiaf un, Abdul, nad oedd yn gallu darllen ac roedd y gweithwyr ieuencid yn ei glwb ieuencid lleol yn amau fod ganddo ryw fath o anhawster dysgu sylfaenol, ond nid oedd unrhyw awgrym fod unrhyw beth yn cael ei wneud am hyn. Roedd eisoes yn absennol o'r ysgol yn eithaf aml. Roedd Karen wedi bod yn hapus iawn yn yr ysgol gynradd a dywedodd ei bod hi'n gwirioni ar fathamateg. Roedd hi'n un o'r goreuon ond fe gafodd ergyd enfawr pan ddywedwyd wrthi, ers cyrraedd yr ysgol uwchradd, nad oedd hi mor glyfar ag yr oedd hi wedi meddwl.

*“Roeddwn i eisiau bod yn athrawes mathamateg yn yr ysgol gynradd, ond dyw hynny ddim yn bosibl bellach. Dydw i ddim yn glyfar iawn gan*

*fy mod i'n gorfod cael gwersi ychwanegol ac rydw i yn y grwpiau isaf ar gyfer popeth. Dydyn nhw ddim yn rhoi'r cyfle i mi fod yn yr ail grŵp."*

- 4.42 Dywedodd ei bod wedi colli llawer o'r ysgol eleni gan ei bod yn dioddef o donsilitis a phan awgrymodd y cyfwelydd mai diben y gwersi ychwanegol hyn yw ei helpu i ddal i fyny, dywedodd ei bod hi'n gwybod bellach nad yw hi'n gallu gwneud y gwaith ac nad oedd hi'n mwynhau mathamateg rhagor.

### **Perthynas â chyfoedion**

- 4.43 Fel y gwelir yn 4.9, cyfeiriodd naw o'r cyfweledigion at faterion yn ymwneud â bwlio fel ffactor allweddol yn eu hymddieithriad o'r ysgol. Mewn tri neu bedwar achos, roedd sefyllfaoedd cymhleth lle'r oedd y sawl a oedd yn cael ei gyfweld yn fwli a hefyd yn cael ei fwlio. Mewn dau achos, datblygodd hyn i fod sefyllfa ddifrifol iawn (gweler astudiaeth achos Ceri) a arweiniodd at y merched ifanc yn llwyr ymwrthod â'u haddysg ac, yn y diwedd, ym mlwyddyn 11, yn dod o hyd i heddwch mewn lleoliad a oedd wedi'i reoli'n llym lle'r oeddent yn teimlo'n ddiogel rhag ymddygiad eraill a hefyd rhag colli rheolaeth o'u hymddygiad eu hunain.
- 4.44 Fel y maent yn ei ddisgrifio, roedd symptomau perthynas wael â chyfoedion yn amlwg yn y ddau achos hyn o'r ysgol gynradd, fel ag yr oedd mewn llawer o achosion eraill (gweler astudiaeth achos John). Gellir gweld materion yn ymwneud â datblygiad cymdeithasol ac emosiynol hefyd yn y ffordd yr oedd cyfweledigion yn siarad am ymladd (dywedodd pedwar o'r cyfweledigion eu bod yn ymladd yn aml drwy gydol eu hamser yn yr ysgol a bu i eraill sôn am ymladd) a'u hanallu i reoli eu hwyliau.
- 4.45 Roedd y merched ifanc a gyfwelwyd yn dueddol o siarad am bwysau cynnal perthynas â merched eraill yn yr ysgol a sut yr oedd hyn yn dylanwadu ar bresenoldeb a dysgu un ai drwy ddylanwadu'n bositif

arnynt i driwantu (h.y. dewis treulio amser â ffrindiau y tu allan i'r ysgol); neu ddylanwadu'n negyddol arnynt i driwantu (e.e. osgoi mynd i'r ysgol gan eu bod yn ofni cael eu bwlio neu fod rhywun yn 'pigo arnynt'). Er eu bod yn ymwybodol bod athrawon yn aml yn cysylltu ymddygiad gwael neu newid mewn agwedd tuag at waith â dylanwad cyfoedion, roeddent yn dueddol o fod yn fwy amwys am y peth, efallai yn gweld cyfeillgarwch fel symptom o newid yn hytrach na'r hyn sy'n ei achosi. Disgrifiodd Kate iddi ddechrau'r ysgol yn setiau 1 a 2, ond wrth i'r blynyddoedd fynd heibio, mae hi wedi llithro i setiau 3 a 4. Dywedodd ei bod hi'n ymwybodol bod athrawon yn teimlo mai'r rheswm am hyn yw ei bod hi'n ffrindiau gyda phobl ifanc sydd dwy i dair blynedd yn hŷn na hi, a'u bod yn poeni fod y bobl hyn yn ddylanwad drwg arni. Fodd bynnag, nid oedd Kate yn teimlo y dylid eu beio nhw am ei dirywiad; roedd hi'n gweld yr hyn a oedd yn digwydd fel ei chyfrifoldeb hi.

### **Symud o gwmpas lleoliadau dysgu**

- 4.46 Roedd deunaw o'r bobl ifanc wedi mynychu mwy nag un ysgol gynradd ac roedd rhai wedi mynychu pedwar neu bump. Roedd pob un namyn un o'r bobl ifanc sy'n Derbyn Gofal gan awdurdod lleol wedi mynychu mwy ag un ysgol gynradd. Roedd pob un o'r tri a'r ddeg o gyfweledigion rhwng 15 ac 16 oed wedi mynychu mwy nag un ysgol gynradd ac roeddent bellach mewn darpariaeth addysg nad oedd yn y brif ffrwd. Nid oedd hi'n glir bob tro pam oedd y bobl ifanc wedi symud ysgol. Mewn o leiaf un achos, dywedodd un ohonynt mai'r rheswm oedd bod ei fam yn symud drwy'r adeg, a siaradai eraill am y teulu yn symud.
- 4.47 I'r gwrthwyneb, ymddangosai rhai o'r bobl ifanc yn amharod i aberthu'r sicrwydd a geir o fod yn aelod o ysgol, hyd yn oed os mai anaml iawn yr oeddent yn mynychu. Roedd Derek, er enghraifft, yn difaru nad oedd wedi dewis opsiwn mewn masnach adeiladu, ond dywedodd ei fod wedi mynd yn sâl ar y bws ac felly nid oedd am fynd i'r coleg.

### **Llwyth gwaith ac anhawster**

4.48 Dywedodd pump o'r cyfweledigion mai'r prif anhawster iddynt hwy oedd bod y gwaith wedi mynd yn rhy anodd. Siaradodd dau ohonynt am hyfforddwyr dysgu gan ddweud nad oeddent wedi bod o unrhyw help. Roedd gwahaniaethau yn y modd yr oedd pobl ifanc yn nodi hyn fel problem. Dywedodd o leiaf pump eu bod yn ddeallus iawn a'u bod yn gweld gwaith ysgol yn 'hawdd' ond bod eu presenoldeb wedi bod mor wael nad oedd pwynt iddynt geisio dal i fyny nawr. Yn yr achosion hyn, cafwyd y teimlad bod yn well ganddynt beidio ag ymdrechu na chael eu gweld yn methu gwneud rhywbeth yr oeddent yn ddigon deallus i'w wneud. Roedd hunan-barch y bobl ifanc hyn yn uchel ond yn fregus ac nid oeddent am fentro ei herio. Mae p'un a oedd ganddynt hefyd lefelau uchel o hunan-ffeithiolrwydd yn fwy dadleuol. Roedd ail grŵp nad oedd ganddynt y blociau adeiladu elfenol i allu mynd i'r afael â'r cwricwlwm. Roedd rhai nad oeddent yn gallu darllen o gwbl a dywedodd eraill fod ganddynt llythrennedd gwael iawn. Dangosodd y disgyblion ym mlwyddyn 7 pa mor gyflym y gall y bobl ifanc hyn ddisgyn ar ei hôl hi gyda'r gwaith a pha mor anodd oedd hi iddynt ddal i fyny. Roedd trydydd grŵp nad oeddent yn ystyried ysgol a chymwysterau i fod yn bethau pwysig ac felly nid oeddent yn gweld fod gwneud ymdrech yn bwysig. Dywedodd Jamie, er enghraifft, ei fod yn dda i ddim mewn arholiadau. Fodd bynnag, fe gytunodd hefyd nad oedd erioed wedi rhoi cynnig ar adolygu.

4.49 Dywedodd y bobl ifanc fod pobl yn gofyn iddynt wneud gwaith a oedd yn rhy anodd iddynt ac felly roeddent yn 'rhoi'r gorau i wrando' tra ar yr un pryd roedd gofyn iddynt wneud gwaith a oedd yn rhy hawdd iddynt ac eto, roeddent yn 'rhoi'r gorau i wrando'. Roedd hi'n amlwg fod rhai yn teimlo eu bod yn gallu gwneud gwaith o lefel uchel mewn un maes penodol, megis mathamateg, ond bod angen dulliau addysgu llawer mwy sylfaenol arnynt mewn meysydd eraill, megis Cymraeg neu Saesneg. Eu beirniadaeth felly oedd y gallai ysgol neu ddarparwr EOTAS ystyried bod eu llythrennedd gwael, er enghraifft, yn cynrychioli

lefelau sgiliau isel yn gyffredinol gan fethu â blaenoriaethu eu rhan mewn pynciau y gallant wneud yn dda ynddynt.

### **Problemau cronig**

4.50 Dywedodd 24 o'r cyfweledigion (dros hanner) eu bod wedi cael problemau gyda'r ysgol ers yr ysgol gynradd a bod rhai ohonynt wedi cael problemau difrifol gan gynnwys un a gafodd ei wahardd yn barhaol ym mlwyddyn 6 ac un arall a fynychodd uned cefnogi addysg ym mlynnyddoedd 4-5. Hefyd, fel y nodir uchod, roedd deunaw o'r cyfweledigion wedi mynychu mwy nag un ysgol gynradd. Disgrifiodd y bobl ifanc yr ymddygiad yn yr ysgol gynradd – roedd y disgrifiad yn awgrymu eu bod yn cael trafferth addasu, gan gynnwys taro athrawon, trais tuag at blant eraill, ymddygiad a oedd yn mynnu sylw ac osgoi eraill. Dywedodd rhai eu bod wedi cael cefnogaeth ychwanegol yn yr ysgol gynradd gan gynnwys help un i un gan gynorthwyydd addysgu, a ddiflannodd wedi iddynt fynd i'r ysgol uwchradd. Mae astudiaeth achos John yn adrodd hanes methiant llwyr plentyn i ymgysylltu â'r ysgol, a methiant 'system' yr ysgol i ymdopi â'i ymddygiad eithafol a rhoi addysg iddo.

### **Astudiaeth achos: John**

'O'r dosbarth babanod, roeddwn i wastad yn camymddwyn, dangos fy hun ond hefyd byddai'r athrawon yn fy nghyhuddo o bethau, yn fy nhrin i'n wahanol i'r lleill. Roedd y gwaith yn hawdd ac rydw i'n dysgu'n gyflym, ond fy mhroblem i yw nad ydw i'n gallu cymryd rhywun yn dweud y drefn, mae fy nhymheredd yn cynyddu ac rydw i'n ei cholli hi. Roeddwn i wastad yn camymddwyn, roeddwn i'n arfer taflu brics at yr athrawon – a hanner ffordd drwy flwyddyn chwech fe ddywedon nhw wrtha'i i beidio â dod yn ôl. Felly ches i ddim addysg am weddill y flwyddyn honno, wnes i ddim byd.'

Aeth John i'r ysgol gyfun ond cyn diwedd blwyddyn 7 cafodd ei wahardd eto cyn cael ei anfon i ganolfan EOTAS, lle gorchmynnwyd iddo adael o fewn

ychedig fisoedd. Aeth yn ôl i'r ysgol a, meddai ef, gwneud dim am ddwy flynedd a hanner, prin yn mynychu. Yna cafodd ei anfon at uned cyfeirio disgyblion:

'Roedd yr Uned yn llawn pennau bach a doedden ni ddim yn gwneud unrhyw waith, dim ond dangos ein hunain. Doedd e' ddim yn lle da i fod. Fe es i am 5 mis cyn cael fy nhaflu allan.'

Cafodd ei anfon yn ôl at y ganolfan EOTAS ond cafodd ei wahardd eto ar ôl ychedig:

'Roedd llawer o waith yno ar Saesneg a mathamateg ond roedd y lle'n OK. Roeddwn i'n hoffi dau o'r athrawon ond roedd un yn fy nghasáu i, ac roedd yn fy anfon adref bob diwrnod. Yn y diwedd, cefais fy nal gan ddau athro, un yn gafael ynof fi gerfydd fy ngwddf. Roedd yn rhaid i mi adael wedi hynny. Dylai e' heb wneud beth wnaeth e', ond ddylwn i ddim fod wedi dweud beth wnes inna' chwaith. Roedd bai arno fe a bai arna i hefyd.'

Yn ystod ei ail gyfnod gyda'r darparwr EOTAS, fe gaeth John gefnogaeth i reoli ei dymer ond dywedodd fod hynny'n rhy hwyr, roedd angen y gefnogaeth honno arno yn yr ysgol gynradd.

'Doeddwn i erioed yn gallu ymdopi â dosbarthiadau mawr, dwi'n ei cholli hi pan dwi'n clywed athrawon yn gweiddi, hyd yn oed pan nad ydyn nhw'n gweiddi arna i, dydw i ddim yn gallu ymdopi â'r peth.'

Am y tri mis diwethaf, mae John wedi bod yn gweithio (yn anghyfreithlon gan ei fod o dan yr oedran gadael ysgol). Ar ôl cael ei daflu allan o'r ddarpariaeth EOTAS, gofynnodd i berchennog caffi y mae'n ei ddefnyddio pe gallai weithio yn y gegin. Cytunodd y perchennog y gallai weithio diwrnod yr wythnos ac mae hyn wedi cynyddu'n raddol i 6 diwrnod yr wythnos. Esboniodd ei fod wrth ei fodd yn gweithio. Pan ofynnwyd iddo pam ei fod yn gallu ymdopi yno pan nad oedd yn gallu ymdopi â'r ysgol, dywedodd ei fod yn lle digynnwrf a phan ofynnwyd iddo sut y gellir disgrifio cegin brysur fel lle digynnwrf, atebodd drwy ddweud er bod pwysau arno i wneud y gwaith, nid oedd ei bennaeth (y boss) yn gweiddi, roedd wastad yn esbonio pethau ac os oedd yn gwneud unrhyw

beth yn anghywir, byddai'n dangos iddo eto heb gynhyrfu. Os oedd cwsmeriaid yn ddigywilydd, roedd yn gwybod nad oedd yn gallu ymateb gan ei fod eisiau cadw ei swydd a byddai'n dweud wrth ei bennaeth gan y byddai hwnnw, meddai, yn ei drin yn deg (h.y. yn ei gredu). Mae am barhau i weithio ac mae'n dweud ei fod yn dda am goginio a'i fod yn teimlo'n dda am gael defnyddio'r til 'mae'n rhaid i chi fod yn onest ac mae'n golygu ei fod yn eich ymddiried ynoch chi'. Mae ei bennaeth wedi dweud wrtho os yw'n gallu parhau, bydd yn ei gyflogi fel hyfforddai go iawn ac yn ei anfon i'r coleg, felly 'byddai'n cael fy nhalu am fynd i'r coleg'.

Nid yw'n glir a fydd John yn cyrraedd y coleg - mae'n dweud ei fod ar ei rybudd olaf gyda'r heddlu gan ychwanegu os yw'n gwneud unrhyw beth drwg bydd yn mynd i'r carchar. Ar y pryd, roedd John wedi'i wahardd o'r clwb ieuencid lle cafodd ei gyfweld (cafodd ei adael i mewn ar gyfer y cyfweliad) gan ei fod wedi torri drws ar bwrpas yn ei dymer yr wythnos flaenorol. Fodd bynnag, ar ôl cael ei dalu £10 am y cyfweliad hwn, aeth yn syth i weld yr arweinydd a rhoi'r arian iddi tuag at drwsio'r drws.

Roedd problemau John gyda'i dymer a chydag ymdopi ag amgylchedd y dosbarth yn amlwg o'i flynyddoedd cynharaf yn yr ysgol ac mae ei ddisgrifiad o'i ymddygiad yn ei gwneud yn glir pam nad oedd erioed yn gallu cael ei addysgu yn effeithiol yn y dosbarth. Mae ei holl atgofion positif yn gysylltiedig â chyfleoedd prin a gafodd i ffurfio perthynas - megis gyda phennaeth ei ysgol iau. Mae wedi bod yn gyson ymosodol a thrafferthus ac mae wedi dod drwy'r system gyda phrin ddim addysg, os o gwbl. Fodd bynnag, mae'n disgrifio ei hun fel dysgwr cyflym ac mae'n gallu darllen. Mae ei gyfnod hiraf o ddysgu heb unrhyw ymyriadau mewn dros ddeng mlynedd wedi digwydd o ganlyniad i'w weithredoedd ei hun wedi iddo ddod o hyd i swydd ac, er nad oes unrhyw sicrwydd na fydd yn disgyn oddi ar y trywydd cywir eto, mae wedi profi ei fod, o leiaf yn y cyfnod hwn o'i fywyd, yn gallu dysgu, yn gallu cymryd cyfarwyddiadau cyn belled â bod hynny mewn ffordd sy'n gredadwy iddo ac yn cael ei wneud mewn ffordd ddigynnwrf, a'i fod yn gallu rheoli ei dymer pan fo rhywbeth yn werth ei gael.

### **Astudiaeth Achos: Ceri**

Mae Ceri'n dweud ei bod hi wedi cael ei bwlio drwy gydol ei chyfnod yn yr ysgol. Chwe wythnos yn ôl fe'r oedd, yn 15 oed, wedi cael ei chofrestru gyda darpariaeth EOTAS am dair awr y dydd a, meddai hi, roedd hi'n hapus am y tro cyntaf yn ei chyfnod yn yr ysgol. Mae pedair merch yn ei grŵp ac mae hi wedi gwneud ffrindiau gyda phob un ohonynt a chyda Phil, y tiwtor. Mae hi'n dweud mai hi yw'r unig un sydd heb ei 'thafllu allan' o'r ysgol a'i bod hi'n mynd am resymau meddygol, cymaint oedd ei anhapusrwydd yn yr ysgol roedd hi wedi ystyried lladd ei hun, gan geisio gwneud hynny ddwywaith. Roedd ei doctor wedi dweud wrthi nad oedd hi 'byth i fynd yn ôl i'r ysgol' gan fod ei 'meddwl yn ansefydlog'.

Mae Ceri yn glir mai ei hysgolion sydd ar fai am ei holl broblemau gan na wnaethant ei gwarchod rhag y bwllis. Wrth drafod, mae'n crybwyll trawma yn y cartref, megis ei nain/mam-gu yn marw ym mlwyddyn 8 'Fe golles i hi'n llwyr yr adeg honno' a'i chwaer yn rhedeg oddi cartref gyda dyn hŷn 'Roeddwn i methu coelio ei bod hi wedi fy ngadael i fel 'na' ond dywedodd bod yr ysgol wedi gwneud ei bywyd yn waeth ar bob cam.

Disgrifiodd Ceri amrywiaeth o strategaethau yr oedd hi wedi'u datblygu yn yr ysgol gynradd i reoli'r bwlio gan gynnwys mynd â bocs bwyd bob amser fel y gallai fwyta yn y toiled â chau'r drws, cadw ei hun ar wahân i blant eraill lle'r oedd hynny'n bosibl a dyrnu'r bechgyn a oedd yn ei bwlio y tu allan i'r ysgol. Dywedodd fod yr ysgol yn gwybod beth oedd yn digwydd ond na wnaethant ei helpu ar unrhyw adeg. Dywedodd fod pethau wedi bod yr un peth i'w chwaer fawr. Roedd ei thad, meddai hi, wedi gwneud popeth o fewn ei allu i gael yr ysgol i ymateb, gan gynnwys ymosod ar y pennaeth, a'i ddal yn erbyn y cabinet. Ond mae'r stori y mae hi'n ei hadrodd yn gymhleth, gyda nifer o anghysondebau. Mae hi hefyd yn disgrifio'i hun fel rhywun sy'n gwneud yn



dda yn yr ysgol, rhywun sydd â ffrindiau da, a rhywun a gafodd hwyl mewn ysgol gynradd a oedd, yn ei barn hi, yn un dda.

Mae hi hefyd yn dweud ei bod wedi bod yn hapus pan symudodd i'r ysgol uwchradd gan gofio blwyddyn 7 fel blwyddyn dda. Dywedodd ei bod hyd yn oed wedi rhoi stop ar y bobl a oedd yn bwlio ei chwaer drwy ymosod ar y prif fwli ar y bws gyda bar haearn. Dywedodd bod ei chwaer wedi dychryn yn fawr ond fe esboniodd ei bod wedi ymddwyn fel hyn allan o gariad, gan nad oedd yn gallu dioddef gweld ei chwaer yn anhapus. Serch hynny, erbyn diwedd y flwyddyn roedd pobl yn 'pigo' arni eto a gwaethygodd hyn drwy gydol blynyddoedd 8 (o gwmpas yr adeg y bu farw ei nain/mam-gu) 9 a 10. Er bod yr ysgol yn ymwybodol, dywedodd na wnaethant ei helpu gan feddwl mai hi oedd y bwli. Cyfaddefodd ei bod hi'n fyr ei thymher a'i bod yn 'hawdd ei chynhyrfu' ac felly ei bod hi wedi ymosod ar eraill weithiau. Dechreuodd ddewis pa ddyddiau y byddai'n mynd i'r ysgol yn ôl y gwersi yr oedd hi'n hoff ohonynt, felly roedd hi'n mwynhau mathamateg a chemeg ond roedd Saesneg yn anodd a byddai'n edrych ar ei hamserlen ac os mai dim ond un neu ddau o'r gwersi yr oedd hi'n hoff ohonynt oedd ganddi, ni fyddai hi'n mynd i'r ysgol.

Trefnodd yr ysgol iddi weld cwnselydd bob pythefnos ond gadawodd y cwnselydd ym mlwyddyn 9 a dywedodd Ceri fod yr un newydd yn ei thrafod â'r athrawon er gwaetha'r ffaith iddynt arwyddo cytundeb cyfrinachedd, felly fe roes hi'r gorau i fynd. Eto, roedd ei thad wedi bod yn ddig gyda'r ysgol ac roedd hi'n ystyried ei natur ymosodol i fod yn warchodol. Dywedodd fod gan y dirprwy bennaeth ofn ei thad gan ei fod yn cofio ei addysgu.

Roedd Ceri mewn dosbarthiadau TGAU yn yr ysgol ac roedd hi'n drist nad oedd y ddarpariaeth EOTAS yr oedd hi ynddo bellach yn cynnig opsiwn gwyddoniaeth. Dim ond sgiliau allweddol yr oedd hi'n ei gwneud, ond roedd hi'n edrych ymlaen at fynd i'r coleg fis Medi nesaf i astudio gofal plentyn neu wallt a harddwch ac roedd hi'n anelu at ymuno â'r fyddin i fod yn nyrs, yn

fecanydd neu'n gogydd. Dywedodd nad oedd angen iddi weld Swyddog Gyrfaoedd gan y gallai drafod ei chynlluniau â'i theulu.

4.51 Hyd yn oed lle'r oedd profiadau ysgol pobl ifanc yn llai eithafol na rhai John a Ceri, roedd llawer o enghreifftiau ohonynt yn methu cyfnod o ysgol o ganlyniad i iechyd neu ddamweiniau, presenoldeb gwael neu waharddiadau a bod diffyg rhaglen i'w galluogi i ddal i fyny â'r gwaith yr oeddent wedi'i fethu cyn mynd yn ôl i'r dosbarth.

### **Effaith ar ddyheadau pobl ifanc**

4.52 Gofynnwyd i'r bobl ifanc beth oeddent am ei wneud yn y dyfodol. Cafwyd ystod resymol o syniadau ar gyfer swyddi yn y dyfodol. Un peth a oedd yn glir, fodd bynnag, er bod bron i bob un ohonynt o'r farn ei bod hi'n bwysig cael cymwysterau i'w helpu i gyflawni eu dyheadau, nid oedd unrhyw dystiolaeth bod cysylltiad rhwng eu sefyllfa a'u hymddygiad presennol a'u disgwyliadau o ran swyddi yn y dyfodol. Felly, er enghraifft, roedd pobl ifanc a oedd yn glir nad oeddent yn mynd i ennill unrhyw TGAU (neu gyfwerth) yn dal i fod ag uchelgais i gael swydd a fyddai'n rhaid cael cymwysterau academaidd ar ei chyfer ac roedd gan bobl ifanc a oedd eisoes â chofnod troseddol am drais uchelgais i weithio â phlant, heb weld (neu efallai ddim yn gwybod) am oblygiadau eu cofnod.

4.53 Roedd 31 o'r bobl ifanc yn disgwyl parhau â'u haddysg mewn coleg addysg bellach. Mae hyn, a'r ymateb positif i ddarpariaeth addysg amgen, yn awgrymu eu bod wedi ymddieithrio llai o addysg ag yr oeddent o'r ysgol. Yn wir, ymddangosai rhai fel petaent wedi 'oedi' eu haddysg, heb ddisgwyl unrhyw gymwysterau o gwblhau eu haddysg orfodol, a chan ddisgwyl dechrau eto yn iawn ar ôl iddynt fynd i'r coleg. Fodd bynnag, prin oedd yr ymwybyddiaeth o ofynion cwrs coleg a thra bo cryfderau'r grwpiau bach a'r cwricwlwm cyfyngedig a gymerodd y 23 o bobl ifanc mewn EOTAS, Unedau Cyfeirio Disgyblion neu raglenni cymorth yn yr ysgol ran ynddynt wedi llwyddo i'w hail-ymgysylltu ag

addysg, nid oedd yn glir pa mor barod a fyddant ar gyfer cyrsiau coleg prif ffrwd.

- 4.54 Mae hanes Lyn yn dangos y themâu hyn yn berffaith. Roedd hi wedi ymddieithrio'n gymedrol o'r ysgol ac mae hi eisoes wedi dechrau astudio cwrs yn y coleg, ac roedd hi dal i fynychu chwe mis yn ddiweddarach. Fodd bynnag, nid oedd hi'n gwybod pa gymhwyster yr oedd hi'n ei astudio a phan ofynnwyd iddi beth fyddai'n digwydd nesaf, dywedodd y byddai'r coleg yn rhoi profion iddynt ac os oeddent yn pasio digon ohonynt, byddant yn gweld a fyddai modd iddynt allu gweithio ac yna byddant yn cael swyddi iddynt. Roedd hi, ar y gorau, yn gyfranogwr goddefol yn y coleg nad oedd wedi dechrau cymryd cyfrifoldeb am ei dysgu ei hun. Tra'i bod yn fodlon parhau i fynd i'r coleg, roedd pobl ifanc eraill, fel Ceri (gweler yr astudiaeth achos) y byddai arnynt angen strategaeth ymgysylltu llawer mwy gweithredol os oeddent am symud yn llwyddiannus o'r amgylchedd llawn cefnogaeth yr oeddent yn rhan ohoni ar hyn o bryd yn ôl i amgylchedd dosbarth yn y coleg.
- 4.55 Dywedodd llai na hanner y bobl ifanc 15 i 16 mlwydd oed (13 allan o 28) eu bod wedi gweld swyddog gyrfaoedd. Dywedodd rhai nad oedd angen iddynt wneud hynny gan eu bod wedi penderfynu beth oeddent am ei wneud, dywedodd eraill eu bod yn ceisio cyngor eu teuluoedd. Dywedodd y rhai hynny a oedd wedi gweld swyddog gyrfaoedd eu bod, yn gyffredinol, wedi bod yn help wrth lenwi ffurflenni cais ar gyfer coleg.

## **Adran Pump: Casgliadau a Goblygiadau Polisi**

### **Cyflwyniad**

- 5.1. Mae'r adran hon yn defnyddio'r dystiolaeth a ddarparwyd gan yr ymchwil i nodi canfyddiadau allweddol a'u goblygiadau o ran polisi. Mae'r data a gasglwyd yn y cyfweiliadau â phobl ifanc yn cefnogi canfyddiadau'r Arolwg Llenyddiaeth ac mae'r ddau beth yn pwysleisio pa mor bwysig yw deall cymhlethdod anghenion pobl ifanc sy'n ymddieithrio o'r ysgol. Anaml iawn y mae'r pethau sy'n achosi ymddieithriad yn bethau syml ac yn aml maent yn cynnwys cymysgedd cronus o ffactorau sy'n gysylltiedig â datblygiad cymdeithasol ac emosiynol, digwyddiadau bywyd, ysgol, strategaethau ymdopi'r plant a'r teulu ac agweddau tuag at ddysgu.
  
- 5.2. Mewn sawl ffordd, roedd y materion allweddol a ddaeth i'r amlwg yn ymwneud llai â pha ddigwyddiadau a oedd yn achosi ymddieithriad neu'n peri iddo waethygu a mwy i wneud â pham fod y digwyddiadau, profiadau neu broblemau hynny, sy'n effeithio ar lawer o blant a phobl ifanc, yn peri i rai ymddieithrio. Mae llawer o bobl ifanc yn gweld eu teulu yn gwahanu, yn cael problemau iechyd ac yn cyfarfod ag athrawon nad oes ganddynt unrhyw gydymdeimlad ac maent yn dal i gynnal perthynas effeithiol â'u hysgol. Mae'r rheswm pam fod gan un person ifanc lai o allu nag eraill i ymdopi â'r ysgol, ymdopi â pherthynas neu ymdopi â cholled, ac yn arbennig pam fod canlyniadau'r gallu is hwnnw o ran diffyg cymwysterau, yn ôl yr ystadegau, yn cael ei gysylltu â thlodi ac anfantais gymdeithasol, yn fater sydd angen ei ddeall yn gliriach ac, o ganlyniad, sydd angen mynd i'r afael ag ef yn fwy effeithiol.
  
- 5.3. Mae straeon y bobl ifanc yn yr adroddiad hwn yn dangos pa mor gymhleth yw ymddieithriad o'r ysgol. Fodd bynnag, maent hefyd yn pwysleisio manteision amrywiaeth o ddulliau i ail-ymgysylltu pobl ifanc â dysgu. Prin iawn oedd y bobl ifanc a oedd wedi ymddieithrio y tu hwnt i bob gobaith ac roedd y rhan fwyaf yn ymateb yn gadarnhaol i'r camau a

oedd yn cael eu cymryd i'w helpu. Fodd bynnag, i lawer roedd y camau hyn yn cael eu cymryd yn rhy hwyr i sicrhau eu bod yn dod i ddiwedd eu cyfnod gorfodol yn yr ysgol gydag addysg o safon. Dangosodd yr ymchwil bod angen ymateb yn gydlynol ac yn amserol i anghenion cymhleth pobl ifanc. Yn yr adran hon, rydym yn amlinellu prif elfennau ymateb cydlynol o'r fath fel y caiff ei nodi yn y gwaith ymchwil. Maent yn canolbwyntio ar atal pobl ifanc rhag ymddieithrio yn y lle cyntaf a sut i ennyn eu diddordeb unwaith eto.

### **Mynd i'r afael ag anghenion cronig**

- 5.4. Roedd y bobl ifanc a gyfwelwyd â hwy yn cynnwys rhai nad oeddent erioed wedi ymdopi'n dda â'r profiad ysgol. Wrth iddynt siarad am eu cyfnod yn yr ysgol, dangosodd y bobl ifanc hyn sut y bu iddynt weld yr un problemau ym mhob un o'r ysgolion yr oeddent yn eu mynychu. Roedd yn glir o glywed eu straeon bod symptomau eu trafferthion, megis ymddygiad heriol, wedi'u cydnabod yn fuan ar ôl iddynt ddechrau yn yr ysgol ac roedd camau wedi'u cymryd ar wahanol gamau o'r ffordd, megis atgyfeiriad at ddarpariaeth arbenigol. Fodd bynnag, un peth arall a oedd yn glir oedd nad oedd y camau a gymerwyd wedi gallu gwneud gwahaniaeth cynaliadwy nac ychwaith, yn hollbwysig, wedi sicrhau bod y plentyn dan sylw wedi gallu cymryd rhan yn yr ysgol, ac elwa o'r profiad.
- 5.5. Roedd peth tystiolaeth gan y bobl ifanc yn dangos bod athrawon yn ystyried y problemau cronig hyn i fod yn bethau sy'n gyffredin rhwng cenedlaethau o'r un teulu ac mewn brodyr a chwiorydd. Soniodd y bobl ifanc fod athrawon o'r farn eu bod yn rhannu nodweddion eu rhieni neu aelodau eraill o'r teulu.

### **Goblygiadau ac argymhellion**

- Mae'r ymchwil yn dangos i rai o'r bobl ifanc bod yr hyn sy'n peri iddynt ymddieithrio wedi'i wreiddio mewn problemau sy'n rhagflaenu eu cyfnod yn yr ysgol a bod cysylltiadau ag ymyriadau gyda

theuluoedd yn hanfodol er mwyn helpu ysgolion i nodi a chynllunio pa gymorth sydd ei angen.

- Mae'r ymchwil yn dangos bod angen strategaethau cyson sy'n seiliedig ar dystiolaeth er mwyn mynd i'r afael â'r pethau hynny sy'n rhwystro disgyblion rhag cymryd diddordeb mewn dysgu, gan gynnwys meithrin sgiliau cymdeithasol ac emosiynol yn hytrach nag ymateb i argyfyngau. Mae'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc a'r awdurdod lleol yn bwysig yn yr ystyr hwn er mwyn sicrhau bod strategaethau o'r fath yn cael eu datblygu o gwmpas y plentyn ac nid o gwmpas y lleoliad dysgu, a'u bod yn cael eu monitro yn rheolaidd.
- Daeth i'r amlwg fod bwlio yn symptom o ymddieithriad yn ogystal â bod yn un o'r pethau sy'n ei achosi. Byddai ymchwil pellach ar batrymau bwlio parhaus a'r cysylltiadau â sgiliau cymdeithasol ac emosiynol y bwli yn ogystal â'r un sy'n cael ei fwlio yn ddefnyddiol o ran archwilio sut y gellir mynd i'r afael â'r broblem hon yn fwy effeithiol.

### **Pwysigrwydd cynnal cynnydd**

- 5.6. Roedd straeon y bobl ifanc yn dangos bod y broses ymddieithrio, i rai ohonynt, yn gallu dechrau gyda mater weddol fach. Yn arbennig, mae'r ymchwil yn dangos y niwed sy'n gallu cael ei wneud pan fo pobl ifanc yn colli gwersi a phan fo digwyddiadau neu broblemau ag ymddygiad yn ymyrryd â'r ysgol ac addysg. Roedd pob un o'r bobl ifanc a gymerodd ran yn yr ymchwil wedi methu gwersi, p'un a oedd hynny o ganlyniad i driwantiaeth, damweiniau ac iechyd gwael, camau disgyblu (megis gwaharddiadau neu gael eu 'hanfon allan') neu o fod yn mynychu cyrsiau nad ydynt yn y brif ffordd, megis cymorth sgiliau sylfaenol ychwanegol. Ni ddisgrifwyd yr un broses neu raglen a oedd yn sicrhau eu bod yn gallu dal i fyny â gwaith yr oeddent wedi'i gollu ac roedd hi'n glir na ellir dibynnu ar berson ifanc a oedd yn cael trafferth yn yr ysgol mewn unrhyw ffordd i ganfod ffyrdd o wneud hynny.

5.7. Mae'r effaith gronol a geir o ganlyniad i fethu gwaith yn bwysig wrth i bobl ifanc sôn fod gwaith dosbarth nad oeddent yn ei ddeall yn gwneud iddynt deimlo fwyfwy ar goll a oedd, yn ei dro, yn sbarduno ymddygiad a allai arwain at fethu rhagor o waith gan eu bod yn cael eu 'hanfon allan' neu eu bod yn 'rhoi'r gorau i wrando', gan ymddieithrio'n oddefol. Ymddangosai mai'r ymateb pan oedd disgybl yn colli nifer o wersi oedd un ai gadael i'w ddealltwriaeth lithro'n is neu, mewn rhai achosion, cwtogi'r cwricwlwm.

### **Goblygiadau ac argymhellion**

- Roedd peth tystiolaeth yn dangos y gallai dewis a hyblygrwydd y cwricwlwm helpu i fynd i'r afael â disgyblion sy'n allgau eu hunain o'u gwersi ond efallai bod hyn yn cael ei gynnig yn rhy hwyr i rai (hynny yw, o flwyddyn 10) i'w hatal rhag ymddieithrio'n ddifrifol.
- Mae addysgu da yn helpu ac roedd tystiolaeth yn dangos fod pobl ifanc yn dewis mynychu dosbarthiadau a oedd yn cael eu haddysgu'n dda (ac yn ennyn diddordeb).
- Gall cysylltiadau cadarnhaol rhwng yr ysgol a theluoedd helpu i nodi unrhyw broblemau arfaethedig a allai effeithio ar bresenoldeb yn yr ysgol. Yn y rhan fwyaf o achosion, gall hyn olygu bod yr ysgol yn cymryd camau rhagweithiol ar lefel isel megis sicrhau fod cyfle tawel i rywun gymryd plentyn i un ochr a gwrando<sup>4</sup> ond gellir cynllunio strategaethau mwy cynhwysfawr ar gyfer yr achosion hynny lle mae'r staff yn gwybod nad yw'r plentyn neu'r person ifanc dan sylw yn ymdopi'n dda â phroblemau o'r fath.
- Mae angen i gamau disgyblu mewn ysgolion gynnwys strategaethau i leihau effaith addysgol negyddol. Felly, er enghraifft, os caiff person ifanc ei wahardd o un neu fwy o'i wersi, rhoddir ystyriaeth i'r modd y gellir gwneud iawn am y gwaith y mae wedi ei golli.

### **Cefnogaeth i ail-gysylltu**

---

<sup>4</sup> Soniodd Sian ei bod wedi cael ar ddeall yn yr ysgol gynradd y gallai siarad ag athro pe byddai ganddi broblem. Ond ni wnaeth neb hyn erioed, felly roedd hi'n teimlo'n wirion yn gofyn felly ni siaradodd hi â neb.

5.8. Dangosodd y cyfweiliad sut, wrth i bobl ifanc fynd yn hŷn, mae eu haggweddau a'u dyheadau yn newid a gellir eu cefnogi i ail-gydio mewn dysgu. Llwyddwyd i ailennyn diddordeb rhai mewn dysgu drwy gyfrwng dewisiadau pwnc a'r posibilrwydd o fynd i'r coleg, tra bo eraill yn ymateb yn bositif i ddarpariaeth EOTAS lle'r oeddent yn gweithio mewn grwpiau bach ac yn gallu meithrin perthynas effeithiol â'r tiwtor/gweithiwr cymorth. Roedd eraill mewn gweithleoedd lle'r oeddent yn gallu dysgu drwy gyfrwng perthynas un i un gydag oedolyn. Yr her i addysg ar y cam hwn yw ystyried sut i wneud iawn am yr addysg sydd wedi'i golli a sut i roi cyfle realistig i'r bobl ifanc hyn lwyddo.

### **Goblygiadau ac argymhellion**

- Mae angen strategaethau mwy unigryw a hyblyg i alluogi pobl ifanc i ddechrau dysgu o'r newydd ym mhob cam o'u haddysg.
- Tra'r oedd gan lawer o'r bobl ifanc a gyfwelwyd sgiliau sylfaenol gwael, nid oedd hyn yn wir am bob un ohonynt ac nid oedd modd denu'r rhai hynny a oedd â sgiliau sylfaenol gwael i ddychwelyd i'r un amgylchedd y bu iddynt fethu ynddo, a'r ddarpariaeth Cymraeg/Saesneg a mathamateg yr oeddent yn ei chasau. Mae plannu sgiliau sylfaenol mewn rhaglenni dysgu sy'n golygu rhywbeth iddynt hwy yn debygol o fod yn fwy llwyddiannus.
- Dangosodd yr ymchwil bod angen gwell canllawiau a chefnogaeth ar y bobl ifanc hyn wrth iddynt fynd ati i ddewis eu hopsiynau.
- Dangosodd yr ymchwil fod dewisiadau cwricwlwm i'r rhai a oedd wedi ymddieithrio waethaf yn gyfyng iawn o fewn lleoliadau unigol. Mae angen ymchwilio er mwyn casglu tystiolaeth am ba gwricwlwm a dulliau cyflwyno sydd fwyaf effeithiol o ran ennyn diddordeb a/neu ailennyn diddordeb pobl ifanc mewn dysgu ac i ba raddau y mae'r dulliau hyn yn paratoi'r bobl ifanc yn llwyddiannus ar gyfer cynnydd a thrawsnewid.
- Dangosodd yr ymchwil y gall athrawon a thiworiaid fod yn ffactorau allweddol yn y broses ble mae disgybl yn ymddieithrio o ddysgu a hefyd o ran ailennyn eu diddordeb. Mae hyn yn awgrymu fod angen i'r staff sy'n gweithio gyda'r bobl hyn fod â sgiliau cymdeithasol,



emosiynol ac ymddygiadol effeithiol eu hunain. Yn arbennig, mae angen i'r rhai hynny sy'n gweithio mewn Unedau Cyfeirio Digyblion a lleoliadau EOTAS feddu ar y sgiliau sy'n eu galluogi i weithio gyda grŵp o bobl ifanc heriol iawn.

- Mae gallu colegau addysg bellach a rhaglenni hyfforddi i ailennyn diddordeb pobl ifanc mewn dysgu yn hanfodol. Mae'r ymchwil yn awgrymu efallai bod angen parhau i ddarparu lefel uchel o gefnogaeth i'r bobl ifanc hynny sydd wedi profi darpariaeth arbenigol, megis EOTAS, wrth fynd ati i astudio cyrsiau yn y coleg, er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i gyfrannu.

### **Meysydd lle gellir gwneud rhagor o ymchwil**

5.9. Ceir canfyddiadau trawiadol yn yr astudiaeth hon, ond gan mai'r bwriad oedd ceisio ymgorffori llais heb ymyrraeth pobl ifanc ac na wnaethpwyd unrhyw ymdrech i gydbwysu tystiolaeth y bobl ifanc ag adroddiadau ymarferwyr a chan fod y sampl o bobl ifanc a gymerodd ran yn fach ac wedi'i dewis yn bwrpasol, nid ydym yn gallu cymryd yn ganiataol fod y canfyddiadau yn gynrychioladol o brofiadau pobl ifanc eraill sydd wedi ymddieithrio'n gymedrol neu'n sylweddol. Felly, efallai bod achos dros gynnal rhagor o ymchwil i archwilio p'un a yw canfyddiadau'r astudiaeth hon yn gynrychioladol mewn perthynas â'r pethau canlynol:

- Yr amrywiaeth eang a gynigir yn y cwricwlwm a'r dulliau gweithredu a'r gefnogaeth a geir mewn gwahanol leoliadau dysgu sy'n gweithio â phobl ifanc sydd wedi ymddieithrio (gweler paragraffau 4.15-4.17);
- Effaith sgiliau cymdeithasol ac emosiynol gwael ar allu pobl ifanc i ymdopi â'r ysgol (paragraff 4.30) ac i reoli eu perthynas â phobl (gweler paragraffau 4.44-4.45);
- Ansawdd a/neu briodoldeb y ddarpariaeth sgiliau sylfaenol (gweler paragraff 4.49);

- Pa mor aml y mae pobl ifanc sydd wedi ymddieithrio o ddysgu yn symud o un ysgol i'r llall a pha effaith y mae hyn yn ei gael (gweler paragraff 4.46);
- I ba raddau y cydgysylltir ymyriadau, er mwyn mynd i'r afael â phroblemau cronig yn effeithiol (gweler paragraff 4.50) a bod strategaethau yn cael eu defnyddio i alluogi pobl ifanc sydd wedi colli cyfnodau o addysg i ddal i fyny (gweler paragraff 4.51);
- Effaith Llwybrau Dysgu 14-19 ar awydd llawer o bobl ifanc sydd wedi ymddieithrio i barhau mewn addysg bellach, a'u parodrwydd i ymdopi â gofynion addysg bellach (gweler paragraff 4.53);
- Y gwahaniaeth rhwng dyheadau llawer o bobl ifanc a'u gwybodaeth am yr hyn sydd ei angen arnynt i'w gwireddu (gweler paragraff 4.52);
- I ba raddau y mae cyngor a chanllawiau presennol ar yrfaedd yn effeithio ar bobl ifanc sydd wedi ymddieithrio, neu sydd mewn perygl o ymddieithrio, o'r ysgol (gweler paragraff 4.55).

## Llyfryddiaeth

Adams, E., Smart, D., & Greig, C (2009) Young Offender Learning and Skills Workstream Report 16-18. The Scottish Government. Available at: <http://www.scotland.gov.uk/Resource/Doc/297498/0092540.pdf> [accessed 15 January 2010]

Armour, K., & Sandford R (2010) Disaffected Youth in Physical Education (PE): What every PE teacher needs to know? Education Line.

Aymer, C., & Okitikpi, T (2001) Young Black Men and The Connexions Service. Research Report RR311. DCSF. Available at: <http://publications.dcsf.gov.uk/eOrderingDownload/RR311.pdf> [accessed 3 March 2010]

Becta ICT Research (2003) What the research says about ICT and motivation. Available at: [http://partners.becta.org.uk/upload-dir/downloads/page\\_documents/research/wtrs\\_motivation.pdf](http://partners.becta.org.uk/upload-dir/downloads/page_documents/research/wtrs_motivation.pdf) [accessed 4 February 2010]

Biggart, A., Deacon, K., Dobbie, F., Furlong, A., Given, L., & Hinds, K (2003). Findings from the Scottish School Leavers Survey: 17 in 2003 Scottish Executive. Available at: <http://www.scotland.gov.uk/Resource/Doc/30859/0023664.pdf> [accessed 4 February 2010]

Bigger, S (2006) Tranquillity, guided visualisation and personal discovery for disengaged "dispirited" pupils. Paper presented at the British Educational Research Association Annual Conference, University of Warwick, 6-9 September 2006. University of Worcester.

Boaler, J., William, D., & Brown, M (2000) Students' Experiences of Ability Grouping - disaffection, polarisation and the construction of failure. *British Educational Research Journal*. Volume 26, Issue 5.

Bryman, A. (2001) *Social Research Methods*. Oxford: Oxford University Press

Callanan, M., Kinsella, R., Graham, J., Turczuk, O., & Finch, S (2009) Pupils with Declining Attainment at Key Stages 3 and 4 Profiles, Experiences and Impacts of Underachievement and Disengagement. National Centre for Social Research. DCSF. Available at:  
<http://publications.dcsf.gov.uk/eOrderingDownload/DCSF-RR086.pdf>  
[accessed 27 February 2010]

Coffey, A and Atkinson, P. (1996) *Making Sense of Qualitative Data: complementary research strategies*. Thousand Oaks CA: Sage Publications.

Coles, B., Hutton, S., Bradshaw, J., Craig, G, Godfrey, C., & Johnson, J (2002) ) Literature Review of the Costs of Being 'Not in Education, Employment or Training' at Age 16-18 – Brief. University of Hull. Available at:  
<http://publications.dcsf.gov.uk/eOrderingDownload/RB347.pdf> [accessed 3 March 2010]

Cooke, E., & Barnes, T (2010) *Action Pack - Engagement and Re-engagement in Learning at Key Stage 3 (ongoing project)*. Current Education & Children's Services Research.

DCSF (2009) *Small steps...Meaningful change: A Selection of Case Studies from the Extra Mile Phase I Secondary Schools 2008–09*. Available at:  
[http://www.teachernet.gov.uk/\\_doc/14568/8484-DCSF-Small%20steps%20Meaningful%20change\\_WEB.pdf.pdf](http://www.teachernet.gov.uk/_doc/14568/8484-DCSF-Small%20steps%20Meaningful%20change_WEB.pdf.pdf) [accessed 19 February 2010]

DCSF (2008a) *Back on Track a strategy for modernising alternative provision*

for young people. Available at:

[http://www.teachernet.gov.uk/\\_doc/13953/Back%20on%20track.pdf](http://www.teachernet.gov.uk/_doc/13953/Back%20on%20track.pdf)

[accessed 19 February 2010]

DCSF (2008b) Delivering 14–19 Reform: Next Steps. Available at:

[http://www.teachernet.gov.uk/\\_doc/13117/Delivering%2014%20to%2019%20r](http://www.teachernet.gov.uk/_doc/13117/Delivering%2014%20to%2019%20r)

[eform%20next%20steps.pdf](http://www.teachernet.gov.uk/_doc/13117/Delivering%2014%20to%2019%20reform%20next%20steps.pdf) [accessed 27 February 2010]

DCSF (2008c) Evaluation of Building Schools for the Future – 2nd Annual Report. Available at

[http://www.teachernet.gov.uk/\\_doc/13240/2ndannualreport.pdf](http://www.teachernet.gov.uk/_doc/13240/2ndannualreport.pdf) [accessed 27

February 2010]

DCSF (2008d) Personalised Learning- A Practical Guide. Available at:

[http://www.teachernet.gov.uk/\\_doc/13042/7892-DCSF-](http://www.teachernet.gov.uk/_doc/13042/7892-DCSF-)

[Personalised%20Learning.pdf](http://www.teachernet.gov.uk/_doc/13042/7892-DCSF-Personalised%20Learning.pdf) [accessed 19 February 2010]

DCSF (2006) New Studio Schools and Academies launched as part of continued drive to raise standards for all. Department for Children Schools & families News [Internet] 26 November. Available at:

[http://www.dcsf.gov.uk/pns/DisplayPN.cgi?pn\\_id=2009\\_0226](http://www.dcsf.gov.uk/pns/DisplayPN.cgi?pn_id=2009_0226) [accessed 19

February 2010]

DCSF (2005) 14-19 Education and Skills Implementation Plan. Available at:

[http://www.dcsf.gov.uk/14-19/documents/14-19\\_implementation\\_plan05.pdf](http://www.dcsf.gov.uk/14-19/documents/14-19_implementation_plan05.pdf)

[accessed 19 February 2010]

DfES (2004) 14-19 Curriculum and Qualifications Reform Final Report of the Working Group on 14-19 Reform. Available at: [accessed 27 February 2010]

DfES (2002) Good Practice Guidelines for Learning Support Units. Available at:

[http://www.teachernet.gov.uk/\\_doc/5954/Good%20Practice%20Guidelines%20for%20LSU's.pdf](http://www.teachernet.gov.uk/_doc/5954/Good%20Practice%20Guidelines%20for%20LSU's.pdf) [accessed 27 February 2010]

Estyn (2009) The impact of RAISE 2008-2009. Evaluation of the impact of the RAISE funding on raising the levels of performance of disadvantaged pupils. A report on the third year of the programme. Available at:  
[http://www.estyn.gov.uk/ThematicReports/Impact\\_of\\_RAISE\\_2008-2009.pdf](http://www.estyn.gov.uk/ThematicReports/Impact_of_RAISE_2008-2009.pdf)  
[accessed 8 March 2010]

Estyn (2008a) Education in Children's Homes. Available at:  
[http://estyn.co.uk/ThematicReports/0308\\_Education\\_In\\_Childrens\\_Homes.pdf](http://estyn.co.uk/ThematicReports/0308_Education_In_Childrens_Homes.pdf)  
[accessed 8 March 2010]

Estyn (2008b) Meeting the learning needs of children and young people who offend. Available at:  
[http://www.estyn.gov.uk/publications/meeting\\_the\\_learning\\_needs\\_of\\_children\\_and\\_young\\_people\\_who\\_offend.pdf](http://www.estyn.gov.uk/publications/meeting_the_learning_needs_of_children_and_young_people_who_offend.pdf) [accessed 8 March 2010]

Estyn (2008c) The Impact of RAISE. Evaluation of the impact of RAISE funding on schools effectiveness in tackling the link between socio-economic disadvantage and underachievement. An interim report after the first 18 months. Available at:  
[http://www.estyn.gov.uk/ThematicReports/0708\\_the\\_impact\\_of\\_raise.pdf](http://www.estyn.gov.uk/ThematicReports/0708_the_impact_of_raise.pdf)  
[accessed 8 March 2010]

Estyn (2008d) The impact of transition plans - An evaluation of the use of transition plans by primary school partnerships to improve the quality of learning and standards. Available at:  
[http://estyn.co.uk/ThematicReports/0608\\_impact\\_of\\_transition\\_plans.pdf](http://estyn.co.uk/ThematicReports/0608_impact_of_transition_plans.pdf)  
[accessed 8 March 2010]

Estyn (2007) Local education authority practice in monitoring the location of pupils being educated outside the school setting and those missing from education. Available at:  
[http://www.estyn.gov.uk/ThematicReports/Monitoring\\_the\\_Location\\_of\\_Pupils\\_May\\_2007.pdf](http://www.estyn.gov.uk/ThematicReports/Monitoring_the_Location_of_Pupils_May_2007.pdf) [accessed 8 March 2010]

Estyn (2005a) LEA strategies to challenge and support schools with weaknesses, especially where pupils are underachieving or where high standards could be achieved for larger numbers of pupils. Available at: [http://www.estyn.gov.uk/publications/Remit\\_9.pdf](http://www.estyn.gov.uk/publications/Remit_9.pdf) [accessed 8 March 2010]

Estyn (2005b) Low Performing Secondary Schools 2004-2005. Available at: [http://www.estyn.gov.uk/publications/Low\\_Performing\\_Schools\\_2005.pdf](http://www.estyn.gov.uk/publications/Low_Performing_Schools_2005.pdf) [accessed 8 March 2010]

Frankham, J., Edwards-Kerr, D., Humphrey N., & Roberts, L (2007) School exclusions: learning partnerships outside mainstream education. Joseph Rowntree Foundation: York.

Gaynor, A., Croll, P., Fuller, C., & Last, K (2007) Children's perceptions of the value of education. Paper presented at the British Educational Research Association Annual Conference, Institute of Education, University of London, 5-8 September 2007.

General Teaching Council for England (GTCfE) (2005) Alternative curriculum provision at Key Stage 4. What difference can alternative curriculum programmes make to students at KS4? Research for Teachers.

Gillies, V., & Robinson, Y (2010) Disruptive Behaviour in the Classroom: Exploring the Social Subjectivity of Disaffection. London South Bank University.

Glaser, B. and Strauss, A. (1967) The Discovery of Grounded Theory: strategies for qualitative research. New York: Aldine Publishing Co.

Goodman, A. and Gregg, P. (Eds.) (2010) Poorer children's educational attainment: how important are attitudes and behaviour?. Joseph Rowntree Foundation. Available at:

<http://www.jrf.org.uk/sites/files/jrf/poorer-children-education-full.pdf> [accessed 4 March 2010]

Griggs, S., Payne, R., & Bhabra, S (2008) Children missing education: experiences of implementing the DfES guidelines. Research Report No.797. DCSF. Available at: <http://www.dfes.gov.uk/research/data/uploadfiles/RR797.pdf> [accessed 4 February 2010]

Hall, D., & Raffo, C (2001) Work related learning: rethinking notions of motivational and attainment transfer between schools and the workplace for young people. University of Manchester.

Hallam, S., Rogers, L., & Shaw, J (2004) Improving children's behaviour and attendance through the use of parenting programmes: an examination of good practice. Institute of Education, University of London. DFES. Available at: <http://www.dfes.gov.uk/research/data/uploadfiles/RR585.pdf> [accessed 15 February 2010]

Hammersley, M. (1996) 'The Relationships between Qualitative and Quantitative Research: Paradigm Loyalty versus Methodological Eclecticism.' In Richardson J.T.E. (ed.) Handbook of Research Methods for Psychology and the Social Sciences. Leicester: BPS Books.

Hammersley, M. and Atkinson, P. (1995) Ethnography - Principles in Practice. 2<sup>nd</sup> Edition. London: Routledge

Jones, P., & Knowles, G (2003) School improvement through improving pupil behaviour. Paper presented at the British Educational Research Association Annual Conference, Heriot-Watt University, Edinburgh, 11-13 September 2003.



Joseph Rowntree Foundation (JRF) (2002) Girls and exclusion from school. JRF: York. Available at: <http://www.jrf.org.uk/sites/files/jrf/112.pdf> [accessed 4 February 2010]

Kendall, S., & Kinder, K (2005) Reclaiming those disengaged from education and learning: a European perspective. National Foundation for Educational Research.

Lloyd-Jones, S (2005) A map of transition in the South Wales Valleys. Unpublished PhD Thesis. Cardiff University

Lowden, K., Devlin, A, Hall, S., Head, G., & Lewin, J (2009) Production of Case Studies of the Delivery of Skills for Learning, Skills for life and Skills for Work. The SCRE Centre, Faculty of Education, University of Glasgow. The Scottish Government Social Research.

Maguire, S (2009) Evaluation of Pilot Three of the Activity Agreements. Centre for education and Industry. Warwick University.

McCrone, T., Southcott, C., & Evans, K (2009) Collaborative Good Practice between Local Authorities and the Further Education Sector. NFER: Slough.

Menter, I., Hulme, M., Lowden, K., Elliot, D., Hall, S., Devlin A., Livingston, K., Payne, F., Woods, P., Christie, D., & Rimpilainen, S (2007) Research to Support Schools of Ambition: Annual Report 2007. University of Glasgow, University of Aberdeen & University of Strathclyde. The Scottish Government.

Mooij, T (1999) Promoting pro-social pupil behaviour: 2-Secondary school intervention and pupil effects. British Journal of Educational Psychology. Volume: 69. Issue Part: 4.

Nardi, E., & Steward, S (2003) Is mathematics T.I.R.E.D? A profile of quiet disaffection in the secondary mathematics classroom. British Educational Research Journal. Volume 29, Issue 3.

National Teacher Research Panel (NTRP) (2006a) Enhancing student engagement. Available at:

<http://www.standards.dfes.gov.uk/ntrp/lib/pdf/farquharandsawyer.pdf>  
[accessed 27 February 2010]

National Teacher Research Panel (NTRP) (2006b) Engaging teacher expertise Inside Information research for teachers, by teachers.

OFSTED (2008) Good practice in re-engaging disaffected and reluctant students in secondary schools. OFSTED: London. Available at:

<http://www.ofsted.gov.uk/content/download/7458/75946/file/Good%20practice%20in%20reengaging%20disaffected%20and%20reluctant%20students%20in%20secondary%20schools.pdf> [accessed 10 January 2010]

OFSTED (2007) The contribution by centres of vocation excellence to the development of vocational work in schools. OFSTED: London. Available at: <http://www.ofsted.gov.uk/Ofsted-home/Publications-and-research/Browse-all-by/Government-and-community/Initiatives/The-contribution-made-by-centres-of-vocational-excellence-to-the-development-of-vocational-work-in-schools> [accessed 12 January 2010]

OFSTED (2005) Managing challenging behaviour. Available at: [http://www.ofsted.gov.uk/content/download/2028/13257/file/Managing%20challenging%20behaviour%20\(PDF%20format\).pdf](http://www.ofsted.gov.uk/content/download/2028/13257/file/Managing%20challenging%20behaviour%20(PDF%20format).pdf) [accessed 4 February 2010]

Pirrie, A., Elliot, D., MacLeod, G., Cullen, M., & Lewin, J (2010). Outcomes for Pupils Excluded from Pupil Referral Units (PRUs) and Special Schools for pupils with Behavioural, Emotional and Social Difficulties (BESD). DCSF.

Pirrie, A., Macleod, G., Cullen, M.A. & McCluskey, G (2009) Where next for pupils excluded from special schools and Pupil Referral Units (PRUS)? DCSF.

Reed, J (2005) Classroom Lessons for policy makers. Toward Zero Exclusion project, primary evidence report. Institute of Public Policy Research. Available at: <http://www.cfbt.com/PDF/91081primaryresearch.pdf> [accessed 4 February 2010]

Riddell, R (2008) Aspiration, identity and self-belief in "disengaged" students. Paper presented at the British Educational Research Association Annual Conference, Heriot-Watt University, Edinburgh, 3-6 September 2008. Education Line.

Riley, K., Ellis, S., & Hallmond, S (2006) Re-engaging disaffected pupils in learning: insights for policy and practice. This paper is work in progress.

Ross, A (2009) (2009) Disengagement from Education among 14-16 year olds. National Centre for Social Research. DCSF. Available at: <http://publications.dcsf.gov.uk/eOrderingDownload/DCSF-RR178.pdf> [accessed 27 February 2010]

Schagen, I., Benton, T., & Rutt, S (2004) Study of attendance in England: report for the National Audit Office. National Foundation for Education Research. Available at: <http://www.leeds.ac.uk/educol/documents/00003892.pdf> [accessed 4 February 2010]

Scottish Executive (2009) Consultation Document 16+ Learning Choices: First Step Activity and Financial Support. Available at: <http://www.scotland.gov.uk/Resource/Doc/246154/0069464.pdf> [accessed 20 January 2010]

Scottish Executive (2006) More Choices, More Chances: A Strategy to Reduce the Proportion of Young People not in Education, Employment or Training in Scotland. Scottish Executive: Edinburgh. Available at: <http://www.scotland.gov.uk/Resource/Doc/129456/0030812.pdf> [accessed 15 January 2010]

Scottish Executive (2004) Better behaviour in Scottish schools: policy update 2004. Available at:  
<http://www.scotland.gov.uk/Resource/Doc/26800/0023667.pdf> [accessed 4 February 2010]

Scottish Executive (2002) Determined to Succeed a Review of Enterprise in Education Evidence Report. Available at:  
<http://www.scotland.gov.uk/Resource/Doc/46932/0028822.pdf> [accessed 15 January 2010]

Skills for all Research Programme (SRP) (2004) Disengagement 14-16: context and evidence. CEP Discussion Paper No 654.  
Centre for Economic Performance: London.

Steer (2009) Review of Pupil Behaviour Interim Report 4. Institute of Education University of London. Available at:  
[http://www.teachernet.gov.uk/\\_doc/13324/alan%20steer's%20report%20060209.pdf](http://www.teachernet.gov.uk/_doc/13324/alan%20steer's%20report%20060209.pdf) [accessed 19 February 2010]

Sutherland, A., & Purdy, N (2006) Attitudes of the socially disadvantaged towards education. Education and Training Research report. Northern Ireland Statistics and Research Agency.

The Scottish Government (2007a) Included engaged and involved part 1: attendance in Scottish schools. Scottish Government: Edinburgh. Available at:  
<http://www.scotland.gov.uk/Resource/Doc/205963/0054747.pdf> [accessed 10 January 2010]

The Scottish Government (2007b) Skills for Scotland a Lifelong Skills Strategy. Available at:  
<http://www.scotland.gov.uk/Resource/Doc/197204/0052752.pdf> [accessed 10 January 2010]

The Scottish Government (2003) A Different Class? Educational Attainment - the views and experiences of looked after young people. Available at: <http://www.scotland.gov.uk/Resource/Doc/26350/0023695.pdf> [accessed 10 January 2010]

Teaching and Learning Research Briefing (TLRB) (2003) Consulting pupils about teaching and learning. No. 5. University of Cambridge: Cambridge.

Visser, J., Daniels, H. & Macnab, N. (2005) Missing. Children and Young People with SEBD, Emotional and Behavioural Difficulties, 10, 1, pp 43-54.

Vulliamy, G., & Webb, R (2003) Supporting disaffected pupils: perspectives from the pupils, their parents and their teachers. Educational Research. Volume 45, Issue 3.